GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership


# **Adolygiad** Blynyddol 2021 - 22

















Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

# Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2021–22

© Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2022

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim (ac eithrio logos adrannau neu asiantaethau) ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod y cewch ganiatâd i wneud hynny ac y caiff ei atgynhyrchu yn gywir ac mewn cyd-destun nad yw’n gamarweiniol.

Rhaid cydnabod mai deunydd dan hawlfraint Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yw hwn a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os mai deunydd trydydd parti ydyw, rhaid cael caniatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

# Cynnwys


Cyflwyniad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cadeirydd ..... 4

## Crynodeb Gweithredol ..... 5

Crynodeb Gweithredol ..... 6
Ein Gwasanaethau ..... 8
Gwerthoedd Craidd ac Amcanion Strategol ..... 9
Ein Nodau Cyffredinol ..... 10

## Ein Cyflawniadau ..... 11

## Ymateb i COVID-19 ..... 24

## Perfformiad ..... 30

Fframwaith Llywodraethu a'n Strwythur ..... 31
Iechyd a Diogelwch ..... 32
Y Gymraeg ..... 34
Llywodraethu Gwybodaeth ..... 35
Cyfathrebu ..... 36
Perfformiad Ariannol ..... 37
Dangosyddion Perfformiad Allweddol ..... 41

## Iechyd a Llesiant ..... 45

Cyd-destun Sefydliadol ..... 46
Llesiant yn y Gweithle ..... 47
Llesiant Ariannol ..... 49

## Datblygu Cynaliadwy ..... 50

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ..... 51
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ..... 52
Perfformiad ac Amcanion Cynaliadwyedd ..... 54
Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a Chaethwasiaeth Fodern ..... 56

## Atodiad: Data'r Gweithlu ..... 57

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr

Croeso i Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) 2021-22. Dyma'n unfed Adolygiad Blynyddol ar ddeg ac, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n dangos sut rydym yn gwella ein gwasanaethau yn barhaus er mwyn diwallu anghenion ein partneriaid a'n cwsmeriaid, ynghyd â dangos ein hymrwymiad parhaus i ychwanegu gwerth trwy weithio mewn partneriaeth, arloesi a rhagoriaeth.

Yn ystod 2021-22, gwnaethom barhau i addasu a newid er mwyn ymateb i'r pwysau ychwanegol a roddodd pandemig COVID-19 ar wasanaethau cyhoeddus, ein staff yn y GIG a chymunedau lleol. Rydym yn falch iawn o ymdrechion staff PCGC, a lwyddodd i addasu a newid eu harferion gwaith a pharhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac ateb lefelau ychwanegol sylweddol o weithgarwch. Cafodd cyflawniadau ein staff eu cydnabod drwy nifer o wobrau cenedlaethol ac achrediad proffesiynol. Nid yw mynd yr ail filltir yn gwneud cyfiawnder mewn gwirionedd â phopeth y maent wedi'i gyflawni.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein perfformiad sefydliadol cryf, gan gyrraedd ein holl dargedau ariannol yn 2021-22 a dosbarthu £2M o'n cynilion arian parod yn ôl i'n partneriaid yn ogystal ag ail-fuddsoddi elfen yn y gwasanaethau a ddarparwn.

Gwnaethom gynnydd da hefyd wrth fwrw ymlaen gyda sawl rhaglen genedlaethol, gan gynnwys sefydlu camau cyntaf Gwasanaeth Golchdy cenedlaethol newydd y GIG, a'r rhaglen Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau, gan ddechrau gweithredu Scan for Safety a datblygu systemau talu newydd ar gyfer practisiau meddygon teulu a chontractwyr Offthalmig.

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyfnod Margaret Foster fel Cadeirydd PCGC i ben. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Margaret am ei chyfraniad enfawr at ddatblygiad PCGC ers 2012, ac am ei helpu i ddatblygu'n sefydliad mawr, amrywiol a llwyddiannus fel y mae heddiw.

Rydym ni'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am ein cyflawniadau yn yr Adolygiad Blynyddol hwn ac rydym ni'n edrych ymlaen at barhau i fodloni a rhagori ar ddisgwyliadau ein rhanddeiliaid ledled Cymru yn ystod 2022/23.



Neil Frow,
Rheolwr Gyfarwyddwr



Tracy Myhill,
Cadeirydd

# Crynodeb Gweithredol









# Crynodeb Gweithredol

Mae 2021-22 wedi bod yn gyfnod o ddatblygu cyflym i PCGC. A ninnau'n parhau i gefnogi GIG Cymru yn ystod y pandemig byd-eang, mae arferion gwaith wedi trawsnewid i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu i deulu ehangach y GIG a phoblogaeth Cymru.

Mae PCGC yn sefydliad a letyir o hyd, gan weithredu o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn adrodd i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr sefydliadol o gyrff GIG Cymru sy'n defnyddio gwasanaethau PCGC a Llywodraeth Cymru.

Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a gosod polisi PCGC ar gyfer GIG Cymru. Ac yntau'n ychwanegu gwerth trwy bartneriaeth, rhagoriaeth ac arloesedd, mae'r Pwyllgor yn chwarae rhan hanfodol wrth fonitro perfformiad yn ogystal â chefnogi datblygiad strategol PCGC a'i wasanaethau.

Mae nifer o is-bwyllgorau a grwpiau ymgynghorol yn cefnogi Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, gan gynnwys ein partneriaid, ein rhanddeiliaid a defnyddwyr ein gwasanaethau.

Rydym yn parhau i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth lle bo hynny'n bosibl, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u darparu'n llwyddiannus ac yn gynaliadwy ar gyfer dyfodol y GIG yng Nghymru.

Rydym wedi datblygu perthnasoedd newydd a chryfhau perthnasoedd presennol, gan gynnal y ffocws ar newidiadau effeithlonrwydd a datblygu gwasanaethau, a hyrwyddo systemau cynaliadwy, arloesol sy'n cael eu gyrru gan ddata.

Mae PCGC yn cael ei gefnogi'n barhaus gan weithlu eithriadol ac amrywiol. Rydym wedi ymrwymo i reoli newid mewn modd sensitif a theg, gan weithio ochr yn ochr â fforymau partneriaeth lleol a chydweithwyr undebau llafur i gynnig cyfleoedd cyflogaeth hefyd.

Mae PCGC yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu a darparu rhagoriaeth mewn gwasanaeth cwsmeriaid, gan ymdrechu i wneud hyn yn elfen graidd o reoli a darparu ein gwasanaethau.

# Cipolwg

**4,802**

Aelod staff

Dros
**£119m**

o fuddion dylanwad proffesiynol

£870m
**Cyllideb Refeniw**

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithredu o:

**46**
Adeilad

**95%**

o holl wariant GIG Cymru yn cael ei brosesu trwy systemau a phrosesau PCGC

**Rydym yn parhau i ail-fuddsoddi**
cynilion er budd GIG Cymru

# Ein Gwasanaethau

- Cyfrifon Taladwy
- Tîm Canolog e-Fusnes
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Gwasanaethau'r Golchdy
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Archwilydd Meddygol
- Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
- Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol
- Cronfa Risg Cymru
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
- Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
- Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru
- e-Alluogi
- Yr Academi Gyllid (wedi'i lletya)
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd
- Cyflogwr Arweiniol ar gyfer hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth
- Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Gwasanaethau Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi
- Aberth Cyflog
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

## Internal Support Services:

- Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
- Pobl a Datblygu Sefydliadol

# Ein Hamcanion

## Rhagoriaeth

- Sefydliad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer sydd â phrosesau rhagorol.
- Canolbwyntio ar wella gwasanaethau yn barhaus, awtomeiddio a defnyddio technoleg ddigidol.
- Yn arwain y ffordd wrth fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio i fynd i'r afael â thargedau newid hinsawddhinsawdd a datgarboneiddio.

## Gwerth am Arian

- Sefydliad hynod effeithlon ac effeithiol.
- Gwneud arbedion mewn termau real a chyflawni buddion i ansawdd gwasanaethau mewn partneriaeth â'n cwsmeriaid.
- Mesur gwerth o ran ansawdd a budd economaidd-gymdeithasol, ac nid ar sail cost yn unig.

## Ein Pobl

- Gweithlu priodol fedrus, cynhyrchiol, iach ac ymgysylltiol.
- Gwreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn niwylliant a gweithredoedd PCGC.
- Annog defnyddio'r Gymraeg yn ein rolau a'n gweithleoedd, gan gefnogi staff i wella lefel eu sgiliau.

## Cwsmeriaid a Phartneriaid

- Diwylliant agored a thryloyw sy'n canolbwyntio ar y cwsmer lle caiff gwasanaethau o ansawdd uchel eu darparu.

## Datblygu Gwasanaethau

- Cynyddu nifer y gwasanaethau o ansawdd uchel a ddarperir i GIG Cymru a sector cyhoeddus Cymru
- Addasu a newid ein prosesau a'n systemau i gefnogi'r economi sylfaenol yng Nghymru

# Gwerthoedd

## Gweithio gyda'n gilydd

Gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr



## Cymryd Cyfrifoldeb

Dros benderfyniadau ac am roi pethau ar waith



## Gwrando a Dysgu

Er mwyn gwella ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd



## Arloesi

Er mwyn hyrwyddo gwelliant parhaus



# Ein Nodau Cyffredinol

1

Byddwn yn hyrwyddo **cysondeb gwasanaeth** ledled Cymru drwy gydweithio â'n partneriaid, a hynny gan barchu anghenion a gofynion rhanbarthol.

2

Byddwn yn **ehangu cwmpas ein gwasanaethau, gan groesawu cynaliadwyedd** yn GIG Cymru ac yn y sector cyhoeddus ehangach i sicrhau gwerth am arian, cysondeb o ran ymagwedd ac arloesi a fydd o fudd i bobl Cymru

3

Byddwn yn parhau i ychwanegu gwerth drwy **arloesi, safoni a thrawsnewid** ein modelau darparu gwasanaeth i gyflawni'r amcanion llesiant a buddion gofal iechyd darbodus, seiliedig ar werth

4

Byddwn yn **gyflogwr deniadol** i genhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol drwy ddenu, hyfforddi a chadw gweithlu gwydn a medrus iawn, sydd wedi cael y cymorth i fod y gorau y gallai fod ac sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg

5

Byddwn yn cynnal **cynllun ariannol cytbwys**, a hynny wrth barhau i sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion uniongyrchol ac anuniongyrchol a pharhau i ailfuddsoddi'r bunt Gymreig yn yr economi

6

Byddwn yn darparu **gwasanaeth gwych i gwsmeriaid**, gan sicrhau bod ein gwasanaethau yn cynyddu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian cymaint â phosibl, a hynny drwy arwain systemau a dull 'Unwaith i Gymru'

7

Byddwn yn **gweithio mewn partneriaeth** i ddarparu gwasanaethau gwydn a fydd yn helpu GIG Cymru i ddod dros heriau COVID-19, yn arwain at Gymru iachach ac yn cefnogi Gofal Sylfaenol cynaliadwy

8

Byddwn yn helpu GIG Cymru i ddygymod â'i heriau drwy fod yn gatalydd ar gyfer dysgu gwersi a rhannu arferion da. Nodi cyfleoedd pellach i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

# Ein Cyflawniadau



# Ein Cyflawniadau ac Astudiaethau Achos

Ceir crynodeb isod o gyflawniadau PCGC yn unol â'r nodau sefydliadol, rhai ohonynt mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig ac eraill yn amlinellu cynnydd mewn meysydd eraill, na ddaeth i ben oherwydd COVID-19. Mae adran bwrpasol ar gyfer astudiaethau achos ar ddiwedd y ddogfen ond nid yw'n rhoi cyfrif cynhwysfawr o'r holl waith a wnaed i gefnogi Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a phoblogaeth Cymru.

## Byddwn yn hyrwyddo cysondeb gwasanaeth ledled Cymru trwy ymgysylltu â'n partneriaid, gan barchu anghenion a gofynion lleol

- Gwnaeth ein Swyddfa Rheoli Prosiect gefnogi Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i gyflawni prosiectau arloesol a wnaeth drawsnewid gwasanaethau.
- ▪ Cwblhaodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) 331 o brosiectau profi, sy'n cynnwys 821 o adroddiadau prawf a phrofi 3,468 o ddyfeisiau. Cynhaliont brofion ar stribedi pH bwydo enterig ar gyfer contract er mwyn prynu un cyflenwr stribedi pH a chwblhau gwaith monitro theatr ar gyfer nifer o Fyrddau Iechyd.
- Gwnaeth y Grŵp Gwasanaethau Fferyllol Clinigol a Thechnegol (CIVAS) weithgynhyrchu a chyflenwiarllwysiadau "parod i'w rhoi" i unedau gofal critigol ledled Cymru, gan wella cysondeb ymarfer a gwella capasiti nyrsio lleol.
- Sefydlodd Archwilio a Sicrwydd is-grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o blith Ysgrifenyddion Bwrdd a Chyfarwyddwyr Cyllid i drafod cysondeb o ran dull archwilio ac adolygiadau cenedlaethol.
- Trosglwyddodd Tîm y Gweithlu Digidol PCGC i Gronfa Ddata Breifat Rithwir ESR annibynnol.
- Datblygodd y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol ffurflenni GMS1 'sganio ar dderbyn' gan alluogi hygyrchedd a chysondeb i staff ar draws sawl lleoliad.
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gwasanaeth sengl ar waith ar gyfer Gwasanaethau Golchdy, gan gynnwys cyfarfod cyswllt rheoli misol gyda sefydliadau'r CLG.
- Amnewid sganwyr warws (setiau llaw cod bar) y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth (SCLT) ym mhob Storfa a chyflwyno manyleb gwasanaeth gyson ledled Cymru
- er mwyn monitro ac adrodd ar reolaeth tymheredd 'byw' nwyddau fferyllol wrth eu cludo.
- Arweiniodd y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth (SCLT) ar logisteg a dosbarthiad brechlynnau Covid a nwyddau traul cysylltiedig ledled Cymru i ddarparu datrysiad logistaidd cyson ac effeithiol. Fe wnaethant ddatblygu a gweithredu proses archebu gyson ar gyfer Fferyllfeydd i archebu brechlynnau ar sailapwyntiadau a drefnwyd a'r gyfran o'r boblogaeth.

- Cydweithio â chydweithwyr nyrsio, y gweithlu a chyllid ledled Cymru i sicrhau bod dull Unwaith i Gymru yn sicrhau canlyniad cyson i'r holl Fyrddau Iechyd wrth recriwtio nyrsys yn rhyngwladol.
- Cefnogi Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) â chaffael gwasanaethau addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol gan sicrhau themâu allweddol o'r ddau brosiect.
- Rhaglen Ymatebolrwydd Recriwtio a gweithio ar y cyd â sefydliadau i brosesu lefel uchel o weithgarwch Recriwtio oherwydd yr Adferiad yn sgil Covid.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) ar ddylunio a rheoli 2 brif gytundeb fframwaith, gan weithio gyda chomisiynwyr lleol drwy gydol y cytundebau i sicrhau bod eu gofynion yn cael eu diwallu.
- Cysondeb Taliadau Bonws Covid ar draws GIG Cymru ar gyfer 115,000 o weithwyr a Gofal Sylfaenol Cymru, gan atal dyblygu taliadau gwerth £625 mil.

## Astudiaeth Achos: Cynllun pum mlynedd i drawsnewid gwasanaethau fferylliaeth ysbytai yng Nghymru






## Byddwn yn ehangu cwmpas ein gwasanaethau, gan groesawu cynaliadwyedd yn GIG Cymru ac yn y sector cyhoeddus ehangach i sicrhau gwerth am arian, cysondeb o ran ymagwedd ac arloesi a fydd o fudd i boblogaeth Cymru

- Caffael Tŷ Matrix yn Abertawe, gyda Thîm Eiddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn cynghori.
- Adeiladu labordy lloeren Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) ym Mharc Imperial 5, Casnewydd, gan ddatblygu dulliau profi newydd i asesu dyfeisiau cysylltiedig â'r pandemig a chyfarpar diogelu personol (PPE). Datblygont ddulliau prawf newydd i asesu dyfeisiau Trwythydd dan Bwysedd i ddarparu nwyddau effeithlon at ddefnydd clinigol.
- Cwblhawyd adolygiad o'r ddogfennaeth ar gyfer Tendrau a Thendrau Masnachol Cymru Gyfan.
- Cafodd Gwasanaeth Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ei archwilio a chafodd Sicrwydd Sylweddol o'r llywodraethu a'r rheolaethau sydd ar waith i weithio gyda buddiolwyr.
- ▪Creodd y Grŵp Gwasanaethau Fferyllol Clinigol a Thechnegol (CIVAS) Wasanaeth Deliwr Cyfanwerthol sy'n ymgymryd â phrynu meddyginiaethau Unwaith i Gymru i hwyluso buddion ariannol newidiadau i gontractau meddyginiaethau a gwella gwydnwch y cyflenwad meddyginiaethau yn wyneb prinderau eang.
- Gweithiodd Tîm Gwirio Ar Ôl Talu'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol ynghyd i gyflawni datrysiad Cymru Gyfan i fynediad o bell at y Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS), wrth addasu i ffyrdd mwy newydd o weithio.

- Ehangu'r fflyd cerbydau trydan ar draws Gwasanaethau, gan gynnwys y Gwasanaeth Negesydd Iechyd a'r Gwasanaethau Golchdy.
- Gosod gwaith meddalu dŵr newydd sy'n darparu gwell ansawdd dŵr, gan ymestyn oes y gwaith a sicrhau arbedion ynni o fewn y Gwasanaethau Golchdy.
- Lleihau nwyddau rheoli clwyfau Nyrsys Ardal sy'n mynd yn wastraff drwy gyflwyno isafswm ac uchafswm lefelau stoc, un system archebu ar gyfer ailgyflenwi stoc ac archebu brys ar gyfer Byrddau Iechyd sy'n cymryd rhan.
- Mae'r Gwasanaethau Caffael wedi ymgorffori gwerth cymdeithasol ym meini prawf gwerthuso tendrau a chynnig Buddion Cymunedol, a oedd yn annog ac yn monitro cynlluniau lleihau carbon cyflenwyr.
- Ehangu'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr i Raddedigion Gofal Iechyd y Proffesiwn Perthynol i Iechyd, y Gwyddorau Gofal Iechyd, Cymdeithion Meddygol a Bydwreigiaeth.
- Cefnogodd y Gwasanaethau Recriwtio Fferyllfeydd Cymunedol i hysbysebu eu swyddi gwag ar NHS Jobs.
- Lansio Cynllun Gweithredu a Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru , a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.
- Datblygodd y Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd ddatrysiad technegol mewnol i ddisodli'r system papurau gwaith archwilio electronig.
- Ehangu'r defnydd o raglenni Office 365 i ddisodli technolegau presennol (e.e. profion awtomataidd).
- Uwchraddio goleuadau LED yn Storfeydd Rhanbarthol Dinbych, Tŷ Matrix, Pencadlys Charnwood Court ac IP5 Stores i foderneiddio a gwella ôl troed carbon y sefydliad.
- Parhawyd i sicrhau tystysgrifau Gwarant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO) fel rhan o estyn y contract Trydan, gan gefnogi Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

## **Astudiaeth Achos:** Trydaneiddio Fflyd y Gwasanaeth Negesydd Iechyd




Byddwn yn parhau i ychwanegu gwerth drwy safoni, arloesi a moderneiddio ein modelau darparu gwasanaeth i gyflawni'r amcanion llesiant a buddion gofal iechyd darbodus.

- Parhau i ddefnyddio technoleg i symleiddio prosesau, gyrru effeithlonrwydd, gwella llywodraethu, a chefnogi gwelliannau i wasanaethau ym mhob cyfarwyddiaeth, gan gynnwys gweithio ystwyth.
- Gwnaeth y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) gaffael system Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) newydd er mwyn moderneiddio'r Seilwaith TG, a defnyddiodd ddadansoddiad economaidd iechyd ar gyfer prosiect pigiad diagnostig yn y lwynau (aDLP) y Bwrdd Caffael Seiliedig ar Dystiolaeth i ddangos gwerth am arian, i fod o fudd i gleifion ac i leihau cymhlethdodau hirdymor.
- Prynu a chymhwyso dyfeisiau paratoi meddyginiaethau lled-awtomataidd cyntaf y DU sy'n caniatáu am swp-weithgynhyrchu meddyginiaethau yn awtomataidd i'w dosbarthu ledled Cymru.
- Rhoddodd Gwasanaeth Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) gydraddoldeb i fuddiolwyr ym mis Awst 2021, gan sicrhau taliadau teg a chyfiawn ar gyfer y rheini yng Nghymru.
- Diwygio dogfennau cynllunio'r Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd i sicrhau cysondeb ar draws timau a chysoni â Safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).
- Arweiniodd y Gweithlu Digidol brosiectau System Rheolaeth Ariannol (FMS) Oracle a Gwybodaeth Busnes (BI) ledled Cymru i gynorthwyo sefydliadau i wireddu manteision defnyddio'r systemau sydd ar gael a gweithredodd Ddangosfwrdd Grŵp Cenedlaethol y Gweithlu Nyrsio (GNG).

- Cyflwynodd proses Cofnodion Meddygol Eithriadol (OSMR) Tîm Cofrestru Awtomeiddio Prosesau Robotaidd Arloesol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a'r Tîm Taliadau system daliadau offthalmig newydd, gan hyrwyddo cydweithio.

- Cydweithio gydag isadrannau i gynorthwyo â dylunio a datblygu platfform ar-lein modern cadarn ar gyfer Contractwyr sy'n dymuno ymuno â'r Rhestr Cyflawnwyr yng Nghymru.

- Cyflwyno profion microbiolegol i sicrhau bod llieiniau glân diogel yn cael eu cyflenwi lle y cânt eu defnyddio o fewn y Gwasanaethau Golchdy a metrigau mesur gweithgaredd i hwyluso meincnodi lleol.

- Cyflwyno Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a Chardiau Gweithredu i sicrhau bod pob brechlyn yn cael ei gludo yn unol â chanllawiau MRHA, yn ddiogel ac yn brydlon er mwyn osgoi gwastraff a diffyg cydymffurfiaeth. Gwnaethant wella'r gallu i olrhain danfoniadau brechlyn a'u statws.

- Ymestyn y defnydd o dechnoleg Cynorthwyydd Digidol Personol (PDA) er mwyn caniatáu i'n hadnoddau gweithredol gael at wybodaeth ac arweiniad ar unwaith trwy dechnoleg ffôn clyfar diogel wedi'i hamgryptio, yn y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth (SCLT).

- Moderneiddio contractau addysg a hyfforddiant drwy gynnwys addysg ryngbroffesiynol, darpariaeth Gymraeg, dysgu o bell a dysgu gwasgaredig.

- Caffael Technoleg Dilysu Dogfennau Manylion Adnabod ar gyfer gwirio dogfennau cyn cyflogaeth o fewn y Gwasanaethau Recriwtio, a fydd yn cynnwys cefnogi Rhaglen Recriwtio Ryngwladol GIG Cymru a gweithredu NHS Jobs 3.

- Mae gostwng swyddogaeth weinyddu Nyrsys Ardal wedi caniatáu mwy o amser ar gyfer dyletswyddau clinigol a bwriad y prosiect yw recriwtio a chadw nyrsys rhyngwladol ar gyfer GIG Cymru.

## Astudiaeth Achos: Cyflwyno canolfannau brechu torfol

Byddwn yn gyflogwr delfrydol i genhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol trwy ddenu, hyfforddi a chadw gweithlu gwydn a medrus tu hwnt, sydd wedi cael cymorth i fod y gorau y gallant fod

- Ymrwymiad parhaus i Bartneriaeth Iechyd a Llesiant y Staff.
- Ehangu nifer y Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hyfforddedig o fewn Gwasanaethau.
- Mabwysiadwyd dull gweithio ystwyth, hyblyg a gweithio o bell gan roi mwy o gyfleoedd i staff weithio ar hyd a lled Cymru a sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a chefnogi amgylchiadau personol a llesiant.
- Dathlwyd chweched Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff blynyddol PCGC yn rhithwir, ym mis Ionawr 2022, gan hyrwyddo dull cynhwysol lle gallai'r holl staff fod yn bresennol.
- Ehangu Model Gwasanaeth Un Cyflogwr Arweiniol yn barhaus i'r holl Hyfforddeion Fferyllol, Meddygol a Deintyddol (>3,000 o hyfforddeion).
- Parhau i gynnig cyfleoedd hyfforddi mewnol, wedi'u haddasu i'w darparu'n rhithwir, ac ymrwymiad i ddatblygu a dyrchafu staff, ac anogaeth i staff ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi proffesiynol.
- Recriwtio i Rwydwaith 75 a Chynlluniau Hyfforddi Rheolaeth i Raddedigion, a datblygu Prentisiaeth a Chynlluniau Lleoliadau Gwaith.



- Recriwtio gweithlu newydd gyda hyfforddiant mewnol i greu gweithlu gweithgynhyrchu meddyginiaethau medrus iawn, nifer uwch o Bersonau Cyfrifol cymwys ar gyfer gweithgareddau Delwyr Cyfanwerthu a chofrestru staff ar Dechnoleg Fferyllol a Sicrhau Ansawdd o fewn y Grŵp Gwasanaethau Fferyllol Clinigol a Thechnegol (CIVAS).
- Presenoldeb yn holl ffeiriau gyrfaoedd a Phrifysgolion Cymru i ddenu ffynhonnell newydd o staff a graddedigion i yrfaoedd GIG Cymru.
- Cynlluniau aberthu cyflog sydd ar gael i staff, gan gynnwys cerbydau, electroneg, a beiciau, gan hyrwyddo llesiant ariannol a chorfforol.
- Cynllun cyllid cyflog sy'n galluogi staff i gymryd benthyciadau allan yn ddiogel a'u talu'n uniongyrchol o'u cyflog mewn ffordd isel a diogel.

## Astudiaeth Achos: Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant y Staff

## Byddwn yn cynnal cynllun ariannol cytbwys, a hynny wrth barhau i sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion uniongyrchol ac anuniongyrchol a pharhau i ailfuddsoddi'r bunt Gymreig yn yr economi

- Cyflawnwyd cynllun ariannol cytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-2020.
- Cynhyrchodd Cynllun Aberthu Cyflog GIG Cymru ar gyfer Ceir o leiaf £1.6m o arbedion yn 2021-22.
- Caffael meddyginiaethau trwy Unwaith i Gymru , gan sicrhau effeithlonrwydd, gwerth am arian a gwydnwch wrth gyflenwi meddyginiaethau i bartneriaid.
- Gweithiodd y Grŵp Rheoli Risg Prisiau Ynni (EPRMG) yn ôl anwadalrwydd y farchnad yn gysylltiedig â strategaeth brynu, gan arwain at Arbedion Rheoli Ynni gwerth £33.8m ar draws GIG Cymru.
- Gosod gwaith meddalu dŵr newydd gan ddarparu gwell ansawdd dŵr ac ymestyn oes y gwaith a sicrhau arbedion ynni o fewn y Gwasanaethau Golchdy, a chomisiynu peiriant newydd i blygu tywelion, gan wella thrwybwn y gwaith trwy blygu 600 o dywelion yr awr.
- Cyflwynodd y Gwasanaeth Negesydd Iechyd fodel ar gyfer danfon y brechlyn a nwyddau traul cysylltiedig ar y cyd fel rhan o ddiwrnod danfon penodol, i leihau teithiau diangen, ein hôl troed carbon a gwastraff o fewn y Bwrdd Iechyd.
- Penodwyd nyrsys rhyngwladol yn llwyddiannus i swyddi amser llawn, gan leihau nifer y swyddi nyrsio gwag ac arwain at wario llai gydag asiantaethau nyrsio allanol, gan hyrwyddo mwy o werth am arian.



- Roedd penodiadau parhaol a defnyddio staff banc yn fwy ar gyfer rolau dros dro wedi helpu i leihau costau asiantaeth.
- Parhau â'r ymagwedd at gomisiynu sy'n seiliedig ar werth, gan hyrwyddo llesiant cleifion drwy ddarparu gofal o ansawdd, a galluogi gwerth am arian ac arbedion effeithlonrwydd.
- Sefydlu ac adeiladu ar nifer o arbedion effeithlonrwydd proses trwy gyflwyno datrysiadau robotig ac awtomataidd.
- Roedd Incwm y Bunt Gymreig ar gyfer y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol yn £153k a gwerth yr incwm masnachol allanol a enillwyd oedd £620k.

**Astudiaeth Achos:** Dyfarniad Contract E-systemau Unwaith i Gymru

## Byddwn yn darparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid, gan sicrhau bod ein gwasanaethau yn cynyddu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian cymaint â phosibl, a hynny drwy arwain systemau a dull 'Unwaith i Gymru'.

- Ardystiadau a gyflawnwyd, gan gynnwys ISO 9001 Ansawdd, ISO 45001 Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, ISO 14001 Amgylcheddol, ISO 27001 Diogelwch Gwybodaeth, Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, Diogelwch Bwyd STS ac Achrediad Lexcel.

- Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan hunanasesiadau Pwyllgorau, adolygiadau blynyddol ac arolygon boddhad ac effeithiolrwydd yn barhaus.

- Gwell adrodd ar gydymffurfiaeth â dysgu, a oedd yn cynnig mwy o lywodraethu a sicrwydd i Fyrddau Iechyd wrth gludo eitemau fel Cynnyrch Gwaed, Fferylliaeth Arbenigol, Patholeg a Chyfarpar Diogelu Personol.

- Bu cynnydd o 32% yn nifer y bobl a gafodd eu derbyn gan Gynllun Aberthu Cyflog GIG Cymru  ar gyfer ceir, o 1,916 o geir i 2,531 o geir yn ystod y flwyddyn ariannol.

- Cyhoeddodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol Bapur Bougie mewn Anaesthesia yn ystod mis Rhagfyr 2021, gan hyrwyddo arfer gorau.

- Darparu meddyginiaethau 'parod i'w rhoi' i wella capasiti nyrsio ym maes gofal critigol.

- Cyhoeddi Holiaduron Ôl-Archwilio yn dilyn cwblhau gwaith y Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd er mwyn i sefydliadau roi adborth ar eu bodlonrwydd gyda'r gwaith o gyflawni'r archwiliad a'r allbwn.

- Monitro dangosyddion perfformiad allweddol o fewn isadrannau yn fisol ar gyfer pob un o sefydliadau GIG Cymru ac mewn adolygiadau chwarterol, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian a'r effeithlonrwydd pennaf.

- Enillodd Tîm Crynhoi'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Wobr Tîm y Flwyddyn yn 2022.

- Parhaodd Tîm Ansawdd a Sicrwydd y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol â phroses tâl y pen ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i gefnogi adnoddau Ymarfer.

- Ymgysylltu'n well â chwsmeriaid i lywio newid i wasanaethau a thendro systemau o fewn y Gwasanaethau Caffael.


- Enillodd Tîm Comisiynu Gwasanaethau Caffael wobr Cyflawni Caffael Gwobrau Cyfleoedd y Llywodraeth, ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

- Cyflwyno pwynt cyswllt i gwsmeriaid ActionPoint o fewn y Gwasanaethau Golchdy, yn ogystal â mesur cyfraddau ailolchi nwyddau ac ailgyflenwi gwasanaeth o ogledd Cymru i dde-ddwyrain Cymru am dri diwrnod i allu cau'r gwaith i lawr am resymau cynnal a chadw.

- Cwblhau rhaglen i brynu Offer Codi Warws newydd i Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth Cymru gyfan.

- Dyfarnwyd Ardystiad Ansawdd y Gymdeithas Cyfrifon Taladwy i Gyfrifon Taladwy fel rhan o'u Rhaglen 'Q', dim ond yr ail sefydliad yn y DU i ennill y wobr hon.

## Astudiaeth Achos: Cefnogi GIG Cymru wrth ymateb i'r pandemig




## Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf er mwyn helpu GIG Cymru i ddatrys problemau pwysig, ac arwain at Gymru iachach sy'n cefnogi Gofal Sylfaenol cynaliadwy.

- Cyfarfodydd rheolaidd gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys yr Is-grŵp Sicrwydd, Ysgrifenyddion Bwrdd, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio ac Archwilio Cymru i drafod dull, gwaith adrodd a gwaith cenedlaethol y Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, yn gysylltiedig â materion allweddol.
- Ar draws GIG Cymru yn ystod 2021-22, roedd 78% o'r fflyd ceir trwy Aberthu Cyflog yn gerbydau trydan neu'n gerbydau allyriadau isel iawn.
- Gan weithio ar y cyd â gwasanaethau Caffael, ymgymerwyd â chontractau Profi ar gyfer Wroleg, Rheoli Tymheredd Cleifion a Rheoli Llwybrau Awyr Cymru Gyfan.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) i leihau dibyniaeth ar PPE wedi'i fewnforio a darparu ffynhonnell gynaliadwy gan weithgynhyrchwyr yn y DU.
- Darparu gwasanaeth rhannu pecynnau brechiadau COVID-19 Gofal Sylfaenol a darparu dros 250,000 o ddosau i safleoedd Gofal Sylfaenol.
- Cydweithio rhwng Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, Llywodraeth Cymru, Byrddau Prosiect Byrddau Iechyd a Fforymau Cyfalaf i ymgorffori dulliau gweithredu cyson a mynd i'r afael â materion allweddol sy'n ymwneud â datgarboneiddio.

- Datblygwyd Rhaglen Recriwtio Rhyngwladol Cymru Gyfan ac mae cynnydd mewn swyddi parhaol wedi arwain at ddarparu gwasanaethau nyrsio yn fwy cyson a phroffesiynol, gan wella'r gofal a gynigir i gleifion.

- Cyflwyno BS14065 Lite, gan ddarparu hyfforddiant i staff ar ddarparu llieiniau glân wedi'u diheintio o fewn y Gwasanaethau Golchdy a sefydlu proses brofi ficrobiolegol.

- Gweithio mewn partneriaeth gydag Arweinwyr Byrddau Iechyd wrth bennu cwmpas a chynllunio gofynion darparu gwasanaethau ychwanegol ar draws yr is-adrannau.

- Rhannu templedi'r Gwasanaethau Negesydd Iechyd gyda sefydliadau eraill i wella eu rheolaeth ar gludo eitemau meddygol (e.e. Patholeg Cat A a Cat B).

- Gweithiodd y Gwasanaethau Caffael ar y cyd â Byrddau Iechyd i ddarparu datrysiad caffael a fydd yn helpu i leihau amseroedd aros cleifion.

- Datblygu Tystysgrif Nawdd Cymru Gyfan ar gyfer Meddygon Teulu sydd newydd gymhwyso.

- Ehangu'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr i Raddedigion Gofal Iechyd y Proffesiwn Perthynol i Iechyd, y Gwyddorau Gofal Iechyd, Cymdeithion Meddygol a Bydwreigiaeth.

- Llwybr sifftiau hyblyg sy'n cefnogi'r gwaith o drefnu Meddygon Teulu Locwm y Tu Allan i Oriau.

- Cynghorodd Tîm Eiddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ar Feddygfa Fawr Ringland ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sef canolfan llesiant o'r radd flaenaf gwerth £26m sy'n gartref i wasanaethau meddygon teulu, deintyddiaeth a gwasanaethau iechyd cymunedol. Hefyd, rhoddwyd cyngor ar gytundeb cymhleth ar gyfer adeilad Genomeg gwerth £15m, 'Parc Geneteg Cymru' i harneisio potensial genomeg i wella iechyd, cyfoeth a ffyniant pobl Cymru.

- System Rheoli Stocrestr Unwaith i Gymru sydd â'r gallu i gasglu manylion nwyddau yn ddigidol i helpu i'w holrhain, atal defnydd amhriodol ohonynt a'u cysylltu â chleifion er mwyn eu galw'n ôl, pe bai rhybudd yn cael ei gyhoeddi.


## **Astudiaeth Achos:** Tîm Eiddo Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg

Byddwn yn helpu GIG Cymru i oresgyn ei heriau, trwy hyrwyddo gwersi a ddysgwyd a rhannu arferion da. Wrth wneud hyn byddwn yn nodi cyfleoedd pellach i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

- Gweithredu'r rhaglen genedlaethol ar gyfer System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru yn llwyddiannus a chyflwyno System Datix Cymru newydd.
- Mabwysiadu'r Pecyn Cymorth Gweithio Ystwyth ar draws is-adrannau, gyda'r Grŵp Gweithio Ystwyth yn nodi arferion gorau, cyfleoedd a gwersi a ddysgwyd.
- Bydd Is-grŵp Sicrwydd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith Ysgrifenyddion Bwrdd, Cyfarwyddwyr Cyllid ac Archwilio Cymru, yn trafod dull archwilio ac adolygiadau cenedlaethol.
- Gweithiodd y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth i ddeall cyfnodau o bwysau o fewn Byrddau Iechyd a chynllunio ar gyfer y cymorth sydd ei angen i gyflawni prosiectau.
- Cydweithio â'r Tîm Gwasanaethau Trafodion i helpu gyda'r broses o drosglwyddo i system daliadau newydd yn lle'r Gwasanaeth Cymwysiadau ac Isadeiledd Iechyd Cenedlaethol (NHAIS).
- Penododd y Gwasanaethau Golchdy gymorth ymgynghorydd golchdy arbenigol i gynyddu'r sylfaen wybodaeth drwy gydweithio â darparwyr arbenigol.
- Ymgymryd â gwaith gyda Byrddau Iechyd a phartneriaid ar y Cynllun Datgarboneiddio yn gysylltiedig â'n fflyd a'r amgylchedd.
- Datblygu rhaglen e-Ddysgu Brechiadau COVID-19. Ar hyn o bryd, mae >40,000 o weithgareddau dysgu wedi'u cwblhau gan frechwyr yng Nghymru.
- Cydweithio â chyrff cyhoeddus a phreifat ar draws gofal sylfaenol a chymdeithasol ar systemau cymorth i gynorthwyo recriwtio.
- Edrychodd Archwilio a Sicrwydd archwiliadau yn gyson ac ystyriont ganfyddiadau allweddol ar draws nifer o sefydliadau er mwyn gallu nodi problemau cyffredin ac arferion gorau ar draws GIG Cymru (e.e. rheolaeth gyllidebol, datganiadau o fuddiant ac archwiliadau ystadau).
- Cynyddu adnoddau archwilio TG i gyflawni gwaith arbenigol a chenedlaethol, gan gynnwys cynnal archwiliadau cyffredin ar draws sefydliadau GIG Cymru i rannu arfer da a gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys cyfarfodydd meincnodi allanol ar gyfer prosiectau tebyg gyda rhanddeiliaid allweddol ac mae Grwpiau Llywodraethu Cymru gyfan yn parhau i adolygu'r Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd.
- Datblygodd y Gweithlu Digidol Adnodd Asesu Risg Gweithlu COVID-19 Cymru Gyfan, gan gynnal 62,000 o asesiadau risg hyd yma.
- Sefydlu Platfform Dysgu a Datblygu a Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Staff Cyllid GIG Cymru.

## Astudiaeth Achos: Offeryn Asesu Risg

# Ymateb COVID-19



# Ymateb i COVID-19

Yn ogystal â gweithio gartref a mabwysiadu model hybrid ystwyth o weithio yn ystod y pandemig, buom yn gweithio i wneud gofodau ffisegol yn ddiogel rhag COVID. Er bod staff yn parhau i weithio ar safleoedd PCGC ar draws PCGC, roedd y mesurau rheoli yn parhau i fod ar waith i reoli lledaeniad COVID-19 drwy gydol 2021/2022.

Parhaodd y brif flaenoriaeth, sef sicrhau bod ein safleoedd yn parhau i fod yn ddiogel rhag COVID a sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth a buom yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Rheoli Adeiladau a'r Grŵp Addasu a Newid yn y Dyfodol i gyflawni hyn.

## Grŵp Rheoli Adeiladau

Sefydlwyd y Grŵp Rheoli Adeiladau (BMG) yn ystod mis Ebrill 2020, gan barhau i gyfarfod yn 2021/2022.

Roedd y Grŵp Rheoli Adeiladau yn parhau i ystyried materion iechyd, diogelwch a lles staff sy'n ymwneud yn benodol â mabwysiadu rheoliadau cadw pellter cymdeithasol a rheoli adeiladau'n effeithiol mewn perthynas â COVID-19.


Mae'r grŵp yn cynnwys arweinwyr safle o bob rhan o ystadau PCGC ac mae ganddo Gynrychiolaeth Undeb hefyd. Yn ogystal, mae'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn aelod o'r grŵp i roi cyngor.

Mae'r grŵp wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn 2022.


Roedd y camau canlynol wedi parhau yn ystod 2021/2022 i sicrhau bod y safleoedd yn ddiogel rhag **Covid-19:**



Mesurau Hylendid




Cadw pellter cymdeithasol



Awyru

## Pum Cam i Weithio Gyda'n gilydd yn Fwy Diogel

Cyhoeddodd PCGC yr Addewid ein bod wedi cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru i reoli risg COVID-19:

- Rydym wedi cynnal asesiad risg COVID-19 ar gyfer pob safle ac wedi rhannu'r canlyniadau â'r staff
- Rydym wedi rhoi gweithdrefnau glanhau, golchi dwylo a hylendid ychwanegol ar waith
- Rydym wedi buddsoddi mewn technoleg i helpu pobl i weithio o bell
- Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i gynnal pellter o 2 fetr yn y gweithle
- Aethom ati i weithredu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn y gweithle

# Ein Mesurau COVID-19

## Codau QR ac ap y GIG

Roedd pob safle wedi lawrlwytho'r cod QR ac wedi'i osod yn y prif fynedfeydd. Cafodd y staff wybodaeth am ap y GIG a'u hannog i'w lawrlwytho.

## System Waith Generig Ddiogel

Dyfeisiwyd y System Waith Generig Ddiogel gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch a pharhaodd i gael ei diweddaru drwy gydol 2021/2022..

## Ymarfer Cynllunio Gofod

Parhaont i ddigwydd ar safleoedd i sicrhau bod y rheol 2m yn cael ei chadw.

## Brechu

Pwysleisiwyd pwysigrwydd Brechu i'r staff

## Asesiadau Risg Generig

Roedd asesiadau risg generig yn parhau i gael eu hadolygu ar safleoedd yn rheolaidd.

## Llawlyfr Contractwyr

Parhawyd cynnal hyn i sicrhau bod contractwyr ar safleoedd yn cadw at y mesurau rheoli ar gyfer Covid-19.

## Gwybodaeth am fynediad at brofion a hunanynysu

Fe'i rhoddwyd i'r staff yn rheolaidd drwy gydol y pandemig.

## Canllawiau Gweithio'n Agos

Roedd canllawiau gweithio'n agos yn parhau i gael eu cyhoeddi a lle bo'n berthnasol parhawyd i adolygu/cynnal asesiad risg gweithio'n agos ar wahân.

## Rhestr Wirio Safleoedd

Roedd arweinwyr safle'n parhau i gwblhau rhestr wirio safle bob 3 mis.

# Ein Mesurau COVID-19

## Posteri ac Arwyddion – Cadw Pellter Cymdeithasol a Hylendid Dwylo

Roedd posteri ac arwyddion yn parhau i gael eu dosbarthu i hyrwyddo hylendid da y dwylo a chadw pellter cymdeithasol.

## Canllawiau a Gwybodaeth

Wedi parhau i fod yn hanfodol bwysig yn ystod y pandemig a chafodd cyngor ei ddiweddaru'n rheolaidd ar dudalennau gwe Iechyd a Diogelwch ar gyfer COVID-19. Parhawyd hyrwyddo a diweddaru tudalen we iechyd a diogelwch Covid-19 bwrpasol yn rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hwylus i gynorthwyo staff a rheolwyr yn gysylltiedig â materion COVID-19.

## Adolygiad Awyru

Cynhaliwyd adolygiad awyru gan y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ar ein safle ar brydles.

Mae PCGC yn parhau i hyrwyddo'r gofyniad i fynnu system awyru dda ar safleoedd a chynlluniwyd a chyhoeddwyd poster.

## Gorchuddion Wyneb

Roedd gwybodaeth am sut i wisgo gorchudd wyneb yn parhau i gael ei rhoi i'r staff a'r holl staff pan oedd angen iddynt wisgo gorchudd wyneb pan nad oed-dent wrth eu desg neu yn agos, roedd eithriadau yn berthnasol.

## Canllawiau ar Weithio Gartref

Roedd canllawiau'n parhau i gael eu dosbarthu i staff a allai weithio gartref yn ystod y pandemig.

## PPE Cymorth Cyntaf

Roedd hwn yn parhau i gael ei ddosbarthu a'i fonitro i bob swyddog cymorth cyntaf yn PCGC i'w ddefnyddio yn ystod y pandemig a hyd y gellir ei ragweld.

Rhoddwyd cyflwyniad Powerpoint i ateb unrhyw gwestiynau, yn benodol ar gyfer swyddogion cymorth cyntaf o fewn PCGC.

## Isafswm Safonau Glanhau Cerbydau

Yn parhau i gael ei ddefnyddio ar draws y safleoedd.

## Sgrin Diogelu Persbecs/Sgrin Diogelu Symudol

Gosodwyd nifer o sgriniau Persbecs yn strategol o fewn swyddfeydd/safleoedd ac maent yn dal yno.

## Glanhau Gwell

Roedd gweithdrefnau'n parhau i gael eu gweithredu ar draws y safleoedd.

# Cadwyn Gyflenwi, Logisteg a Chludiant Allweddol COVID-19 Ystadegau



## Prynwyd, Casglwyd, Paciwyd a Dosbarthwyd

**1.3 Biliwn o Eitemau**

Rheoli Tymheredd:

**100%**

Danfoniadau o gymharu ag Archebion a Dderbyniwyd:

**100%**

Poblogaeth Cymru a Frechwyd yn Llawn:

**76.4%**

Staff Ychwanegol: **70%**

Cerbydau Ychwanegol: **50%**



Podiau Traul Brechlynnau a Ddanfonwyd:

**17,500+**

Danfoniadau Hwyr neu wedi Methu:

**0%**

**7 miliwn+**

Profion Covid a Gludwyd yng Nghymru

**50,000+**

Danfoniadau Cyfarpar Diogelu Personol Ledled Cymru

**6.9 miliwn+**

Vaccines Delivered into Health Boards

**Teithiwyd:**

**2.4m**

*MILLTIR yng Nghymru yn gysylltiedig â COVID*

**2.4m**


Wedi'u brechu'n llawn yng Nghymru:

# Sut y gwnaethom barhau i gefnogi GIG Cymru yn ystod COVID-19

## Ochr yn ochr â pharhau i ddarparu ein prif wasanaethau 'busnes yn ôl yr arfer' i'n cwsmeriaid, rydym wedi cyflawni'r isod:



Cynorthwyo â chludo sbesimenau COVID19 a nwyddau traul y brechlyn i safleoedd ledled Cymru ac ohonynt.



Parhau i weithio mewn partneriaeth â'n Hundebau Llafur i hyrwyddo diogelwch yn y gweithle a lles staff.



Un ganolfan ar gyfer cyngor ac arweiniad cyfreithiol i gynorthwyo staff wrth ofalu am gleifion a'u trin.



Adolygiad o drefniadau llywodraethu ar draws sefydliadau'r GIG gan wasanaethau Archwilio Mewnol.



Asesu ardystiad ac adroddiadau profion ar y cyflenwad PPE.



Parhau i gefnogi Dosbarthiadau Fferylliaeth Gartref Cymru Gyfan, gan sicrhau bod meddyginiaethau lliniarol ar gael i gleifion sy'n derfynol wael.



Arwain ystadau rhanbarthol ar gyfer offer ocsigen, ei gynllunio a llif yr offer i safleoedd gofal iechyd.




Cynorthwyo â thalu cyflenwyr yn brydlon, gan gynnal llif arian amserol yn ystod y pandemig.



Cyflenwi chwistrellau wedi'u llenwi ymlaen llaw o feddyginiaethau allweddol o'n TMU i unedau gofal critigol.



Recriwtio i gefnogi'r ymchwydd ychwanegol mewn capasiti a'r ymgyrch brechu torfol.




Gwasanaeth cyfieithu Cymraeg i Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys briffiau dyddiol i'r cyhoedd.



Monitro asesiadau risg ar gyfer ein hyfforddeion meddygol a fferylliaeth.



Cymorth trwy ein Gwasanaeth Pensiwn i deuluoedd y rhai sydd wedi marw yn y swydd yn ystod y pandemig.




Gweithredu StockWatch i olrhain a rhagweld ar draws GIG Cymru.



Datblygu offer cyflym a deunyddiau e-ddysgu i gefnogi'r ymgyrch frechu ac asesiadau risg ar gyfer staff y GIG.



Diweddaru ein pecynnau cymorth i staff er mwyn helpu addasu i ffyrdd newydd o weithio.



Ymateb caffael llwyddiannus parhaus trwy barhad y cyflenwad cyfarpar diogelu personol.

# Perfformiad

# Fframwaith Llywodraethu

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau a Phwyllgor Archwilio PCGC gyfrifol am graffu ar berfformiad, ei asesu a'i fonitro. Mae'r pwyllgorau hyn, ynghyd â sawl is-bwyllgor a grŵp ymgynghorol, yn sicrhau cydymffurfiaeth â Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd trosfwaol PCGC.

Caiff papurau'r Pwyllgor eu cyhoeddi ac maent ar gael ar ein gwefan.


Mae aelodau Pwyllgor y Bartneriaeth yn cynnwys Cadeirydd Annibynnol, Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC a naill ai'r Prif Weithredwr neu gynrychiolydd enwebedig arall, sy'n gweithredu ar ran pob Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig yn GIG Cymru. Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau bod PCGC yn dilyn yr egwyddorion llywodraethu da yn gyson, a'i fod yn goruchwylio ac yn datblygu systemau a phrosesau sefydliadol ar gyfer rheolaeth ariannol a sefydliadol, llywodraethu, a rheoli risg.

Rôl y Pwyllgor Archwilio yw adolygu ac adrodd ar weithrediad effeithiol y system reoli fewnol a'r system lywodraethu gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg, dulliau rheoli cydymffurfiaeth weithredol a sicrwydd cysylltiedig sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion a chynnal safonau llywodraethu da.

Ceir tystiolaeth o reoli adnoddau yn ystod 2021-22 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r datganiad yn disgrifio i ba raddau y gwnaethom gydymffurfio â'n gofynion llywodraethu ein hunain, gan grynhoi'r holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi ei farn bob blwyddyn am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu, sef sicrwydd rhesymol ar gyfer 2021-22.

## Ein Strwythur



# Iechyd a Diogelwch

Yn ystod 2021-22, prif gategori'r damweiniau Iechyd a Diogelwch oedd:

- Dod i gysylltiad â gwrthrych;
- Codi a chario;
- Slips, trips, and falls; and
- Violence and aggression.

Gwelwyd cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ran dod i gysylltiad â gwrthrych, codi a chario, a llithro, baglu a chwympo. Fodd bynnag, effeithiodd y pandemig yn sylweddol ar ffigurau 2020-21, a'r gostyngiad sylweddol mewn niferoedd ar y safle o ganlyniad, a gallai 2021-22 adlewyrchu dychwelyd yn raddol i rywbeth tebyg i fusnes yn ôl yr arfer. Yn ogystal, mae ehangu PCGC drwy ymgymryd â gwasanaethau fel Gwasanaethau'r Golchdy hefyd wedi arwain yn anochel at gynnydd mewn digwyddiadau. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd, cyflawnwyd yr amcanion a bennwyd ar gyfer llithro, baglu, a chwympo a thrais ac ymddygiad ymosodol.

Gwnaed rhestr o archwiliadau mewnol iechyd a diogelwch gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch a'r Swyddog Cymorth Iechyd a Diogelwch yn PCGC yn ystod 2021-22.Dylid nodi mai nifer cyfyngedig o ymweliadau safle a gynhaliwyd oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Derbyniodd wyth safle sicrwydd cadarn a derbyniodd un safle sicrwydd rhesymol. Ni dderbyniodd unrhyw safleoedd sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd.

Yn ogystal, lansiodd y rhaglen genedlaethol ar gyfer System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru system newydd Datix Cymru yn PCGC ar 17 Mai 2021.

Darllenwch fwy am y system trwy ddarllen ein hastudiaeth achos. ***Iechyd a Diogelwch Adroddiad Blynyddol 2021-22***

| Categori Tueddiadau | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| Cysylltiad â Gwrthrych | 11 | 11 | 26 | ↑ |
| Codi a Chario | 14 | 12 | 23 | ↑ |
| Llithro, Baglu a Chwympo | 13 | 6 | 15 | ↑ |
| Trais ac Ymddygiad Ymosodol | 14 | 10 | 10 | → |

## Dod i gysylltiad â gwrthrych

Nid yw PCGC wedi cyflawni ei amcan i leihau digwyddiadau dod i gysylltiad â gwrthrych yn y gwaith, yn bennaf oherwydd bod cyflwyno Gwasanaethau'r Golchdy yn trosglwyddo i PCGC ym mis Ebrill 2021, a lle cofnodwyd 10 digwyddiad yn ystod y flwyddyn.

## Codi a Chario

Nid yw PCGC wedi cyflawni ei amcan i leihau digwyddiadau codi a chario yn y gweithle, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn gweithgareddau gwasanaeth.


## Llithro, Baglu a Chwympo

Mae PCGC wedi cyflawni ei amcan i leihau llithro, baglu a chwympo yn y gwaith, o ganlyniad i waith, gyda'r nod o leihau hyn 10% dros ddwy flynedd (ar sail nifer y digwyddiadau fesul 1,000 o weithwyr)


## Trais ac Ymddygiad Ymosodol

Mae PCGC wedi cyflawni ei amcanion i leihau digwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol, gan anelu at ostyngiad o 30% dros ddwy flynedd.


# Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch yn ôl Chwarter ar gyfer Grŵp Gwasanaeth 2021-22




# Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch yn ôl Chwarter 2020-21 o gymharu â 2021-22




# Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch yn ôl Math 2021-22






# Y Gymraeg

## Gwasanaethau Cymorth Cyfieithu:


Darparodd Uned y Gymraeg wasanaethau cyfieithu i nifer o sefydliadau'r GIG yn ystod 2021/22, gan gyfieithu dros 4.5m o eiriau.

Dros y chwe blynedd diwethaf bu cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau cyfieithu Cymraeg a bwriadwn fuddsoddi ymhellach yn ein hadnoddau cyfieithu yn 2022/23, a fydd yn ein galluogi i ddarparu cymorth pellach i sefydliadau'r GIG o 2023/24 ymlaen..

### Galw am Gyfieithu




### Services Provided to NHS Organisations




Yn ogystal ag ehangu gwasanaethau cymorth cyfieithu, yn ystod 2021-22, cyflawnodd Uned y Gymraeg y prosiectau canlynol:

- Sefydlu Banc Cyfieithu
- Y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr
- Taflenni Gwybodaeth i Gleifion Cymru Gyfan:
- Pyrth ESR ar gael yn Gymraeg
- Prosiect Adolygu'r Ganolfan Gyswllt
- Diweddariadau i System Recriwtio TRAC
- Sicrhau Ansawdd Taflenni Gwybodaeth i Gleifion ar gyfer Cronfa Risg Cymru
- Cwrs Cydsyniad ar sail Gwybodaeth ar gyfer staff GIG Cymru

Darllenwch fwy am y Prosiectau Darparu Gwasanaethau Cymraeg a restrir uchod, yma.

# Llywodraethu Gwybodaeth

Yn ystod 2021/22, darparwyd y gweithgareddau canlynol o fewn y swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth:

**45**
Dosbarth llywodraethu gwybodaeth wyneb yn wyneb wedi'u mynychu gan staff

Lansio dull newydd o Reoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Chwefror 2022

**409**
o alwadau Actionpoint wedi'u cofnodi ar blatfform pwrpasol y gwasanaeth

Darparu canllawiau desg glir, gweithio o bell a gweithio ystwyth, a chanllawiau eraill, a chynnal adolygiadau desg glir

**230**
O staff y Gwasanaethau Cyflogaeth wedi mynychu sesiynau Ansawdd Data wedi'u teilwra

**83**
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd

Mynychodd **624** o staff sesiwn ystafell ddosbarth rithwir ar lywodraethu gwybodaeth (**142** o staff newydd, diweddariad i **482** aelod o staff)

Datblygu cylchlythyrau, taflenni a chyfathrebiadau SWAY rheolaidd i ddarparu diweddariadau ar bob pwnc llywodraethu gwybodaeth

**1,200+**
Staff wedi'u hyfforddi o fewn y targed cydymf urfio dwy flynedd

**86%**
Cyfartaledd cydymffurfio â sgiliau craidd e-Ddysgu Llywodraethu Gwybodaeth ledled PCGC

**97.6%**
Cydymffurfio wrth ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith

**Sicrwydd cadarn** gan rhaglenni archwilio

Lansio Llywodraethu Gwybodaeth Staff Y Siarter

Niferoeddisel o dorri rheolau Llywodraethu Gwybodaeth, heb unrhyw ddigwyddiadau difrifol wedi'u cofnodi

Cwblhawyd Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd, gan gynnwys Rheoli Achosion Cyfreithiol a Risg, Cynllun Triniaeth Amgen Gofal Sylfaenol, Adnewyddu rhestr cyflawnwyr a phrosiectau Rheoli Data, gwirio ID Digidol Recriwtio, meddalwedd iechyd galwedigaethol Cymru gyfan.

**100%**
Cwblhau pecyn cymorth asesu Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan a gwaith sylweddol ar y cynllun gwella i'w gwblhau

Darllenwch ragor yma: Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth

# Cyfathrebu

**1,049,004**
Nifer yr Ymweliadau â'r Wefan

Lansiwyd gwefan allanol newydd PCGC ym mis Mehefin 2020 ac mae'n cyd-fynd â brandio cyrff iechyd eraill yng Nghymru. Mae'r wefan yn gwbl ddwyieithog ac yn bodloni holl Safonau Hygyrchedd W3C ar gyfer ymwelwyr ag anableddau. Mae'n parhau i ddarparu gwybodaeth allweddol i'n rhanddeiliaid, gan gynnwys staff mewnol nad oes ganddynt fynediad parod i'n llwyfannau mewnol.

Mae safle mewnrwyd PCGC yn sianel gyfathrebu allweddol i staff yn unol â'n sianeli mewnol eraill. Mae'n parhau i ddarparu gwybodaeth am y Coronafeirws, iechyd a llesiant, rhaglenni a phrosiectau is-adrannol, mentrau staff unigol a negeseuon corfforaethol allweddol.

**1,034,004**
Nifer yr ymweliadau â'r wefan

**4,274**
Dilynwyr ar Twitter

Mae gan sianel Twitter gorfforaethol PCGC dros 4,200 o ddilynwyr hyd yn hyn. Mae ein dilynwyr yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol fel staff mewnol, GIG Cymru yn ehangach, Llywodraeth Cymru, contractwyr/darparwyr yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd.

Ochr yn ochr â chyfrif Twitter PCGC, mae ein sianel LinkedIn yn ein galluogi i rannu gwybodaeth gorfforaethol allweddol gyda rhanddeiliaid allanol yn fwy ffurfiol, yn ogystal â'i ddefnyddio fel dull recriwtio i ddenu'r doniau gorau i PCGC.

**5,336**
Dilynwyr ar Linkedin



# Perfformiad Ariannol

Mae PCGC yn rhoi cyngor i holl gyrff y GIG ledled Cymru ac, oherwydd hyn, mae'n rhaid iddi ddefnyddio'r cyllid a roddir iddi i fodloni costau rhedeg â gofyniad i adennill costau bob blwyddyn. Yn ogystal, mae gan PCGC darged i ddosbarthu arbedion o £0.75 miliwn y flwyddyn i gyrff iechyd ledled Cymru. Yn ogystal â sicrhau bod gwariant refeniw o fewn terfynau, mae gofyniad hefyd i sicrhau bod unrhyw wariant cyfalaf o fewn y Terfyn Gwariant Cyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Yn olaf, mae'r Polisi Taliadau yn y Sector Cyhoeddus yn gofyn i PCGC dalu anfonebau i ddarparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod o gyhoeddi'r anfoneb neu o fewn 30 diwrnod o dderbyn y nwyddau. Yn ystod 2021-22, cyflawnom bob un o'n targedau perfformiad ariannol, gan ragori ar ein targedau arbedion ac roedd modd i ni rannu £2filiwn o arbedion i GIG Cymru.

| | Targed | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Sefyllfa ariannol – yr alldro a ragwelir | Gwarged Bach | Gwarged o £11k |
| Sefyllfa Ariannol Cyfalaf | Aros o fewn Terfyn Gwariant Cyfalaf | Wedi'i gyflawni |
| Dosbarthiad arbedion | £0.75m | £2.00m |
| % Polisi Taliadau yn y Sector Cyhoeddus PCGC | 95% | 96% |

## Gellir crynhoi incwm a gwariant PCGC fel a ganlyn:

| | 2021-22 £m | 2020-21 £m |
|---|---|---|
| Incwm | 869.973 | 593.121 |
| Gwariant | 869.962 | 593.100 |
| Gwarged | 0.011 | 0.021 |

# Gwariant Refeniw:

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, cyfanswm y gwariant oedd £869.962m, ac o'r swm hwnnw gwariwyd £218.429m ar gostau cyflogau a gwariwyd £651.533m ar gostau nad ydynt yn gyflogau.

| Gwariant Refeniw | £m |
|---|---|
| Costau Cyflogau | 218.429 |
| Costau nad ydynt yn gyflogau | 651.533 |
| **Cyfanswm** | **869.962** |


# Gwariant ar Gyflogau:

Mae gwario ar staff banc ac asiantaeth yn ymwneud yn gyffredinol â chyflenwi swyddi gwag, swyddi gwag hirdymor neu i gynorthwyo'r ymateb i Covid, ond mae'n cael ei leihau gymaint â phosibl.

| Gwariant ar Gyflogau | £m |
|---|---|
| Cyflogau | 213.477 |
| Banc | 3.783 |
| Asiantaeth | 1.169 |
| **Cyfanswm** | **218.429** |

# Gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau:

Cyfanswm y gwariant nad yw'n gysylltiedig ar gyflogaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 oedd £651.533, gan gynnwys taliadau Cronfa Risg Cymru. Mae'r siart isod yn dangos prif gategorïau gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 gyda dadansoddiad pellach o'r gwariant "arall" yn y tabl ar y dudalen nesaf.



| Adran | £m |
|---|---|
| Rent, Ardrethi a Chyfleustodau | 5.909 |
| Costau Cyfrifiaduron a Meddalwedd | 5.689 |
| Glanhau a Chynnal a Chadw | 3.680 |
| Cerbydau a Chostau Rhedeg Cerbydau | 2.792 |
| Taliadau o fewn y GIG | 1.783 |
| Argraffu a Deunydd Ysgrifennu | 1.156 |
| Hyfforddiant a Chynadleddau | 1.028 |
| Nwyddau Labordy | 0.950 |
| Costau Adleoli Meddygon dan Hyfforddiant | 0.829 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 0.648 |
| Postio, Cludo, Pacio a Storio | 0.610 |
| Offer a Dodrefn Swyddfa | 0.368 |
| Arall | 0.284 |
| **Cyfanswm** | **25.724** |

## Buddsoddiadau cyfalaf:

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, buddsoddodd PCGC gyfanswm o £17.018 miliwn ar draws amrywiaeth eang o brosiectau cyfalaf. Gwnaed buddsoddiadau sylweddol i brynu Tŷ Matrix House, ein swyddfeydd yn y de-orllewin ym mis Mawrth 2022 (£4.934 miliwn), gweithredu blwyddyn 1 prosiect Scan 4 Safety (£1.565m), dechrau achosion busnes amlinellol TRAMS a’r Golchdy (£2.341m), newid y fflyd gan gynnwys prynu 22 o gerbydau trydan (£1.450m), adeiladu a chomisiynu’r estyniad i’r Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol yn IP5 (£0.663m) a buddsoddiadau mewn goleuadau LED a gwefrwyr cerbydau trydan at ddiben datgarboneiddio (£0.669m). Yn ogystal, trosglwyddwyd £3.353m o asedau sefydlog i PCGC o ganlyniad i drosglwyddo Gwasanaeth Golchdy Cymru Gyfan o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

| Categorïau cyfalaf dewisol | £m |
|---|---|
| TG | 0.318 |
| Cyfarpar | 0.055 |
| Ystadau | 0.164 |
| **Cyfanswm** | **0.600** |

| Cynlluniau Cyfalaf Ychwanegol | £m |
|---|---|
| Gwasanaethau Golchdy (Ffioedd achos busnes amlinellol) | 1.411 |
| IP5 - Dewisol | 0.241 |
| System Rheoli Achosion LARS | 0.348 |
| TRAMS (Ffioedd achos busnes amlinellol) | 0.930 |
| Sgan for Safety | 1.331 |
| Datgarboneiddio | 1.185 |
| Oergelloedd Fferyllfa a Phorth Mynediad | 0.025 |
| Gwasanaethau Storio a Chynhyrchu Meddyginiaethau Aseptig | 0.026 |
| Asedau Golchdy S1 | 3.353 |
| Dyraniadau Cyfalaf DPIF Ychwanegol | 0.481 |
| Cyllid Ychwanegol Tachwedd 21-22 | 1.425 |
| Cyllid Ychwanegol Chwefror 21-22 | 0.633 |
| EPQs Newydd | 0.032 |
| Tŷ Matrix | 4.934 |
| Offer Golchdy CTM | 0.094 |
| Trosglwyddo Peiriannau anadlu i CTM 2020-21 | -0.008 |
| Trosglwyddo Glidescopes i CTM 2020-21 | -0.023 |
| **Cyfanswm** | **16.418** |



# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein dangosyddion perfformiad allweddol a'n targedau ar gyfer y cyfnod adrodd ariannol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Lle na fodlonwyd y targedau, rhoddwyd esboniad drosodd.

## Dangosyddion Mewnol:

| **Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau lefel uchel** | 2021-22 Gwirioneddol | 2021-22 Targed |
|---|---|---|
| **Corfforaethol a Chyllid** | | |
| Sefyllfa Ariannol | Gwarged o £11k | Adennill costau |
| Sefyllfa Ariannol Cyfalaf | Cytbwys £17.0m | O fewn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf £17.0m |
| Dosbarthiad Arfaethedig | £2m | £0.75m |
| Polisïau Taliadau yn y Sector Cyhoeddus PCGC % | 96% | 95% |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol PCGC ar gyfer Sefydliadau – Recriwtio** | | |
| % y swyddi gwag a gymeradwywyd o fewn 10 diwrnod gwaith | 66% | 70% |
| % y swyddi gwag y lluniwyd rhestr fer ar eu cyfer o fewn 3 diwrnod gwaith | 49% | 70% |
| % canlyniadau'r cyfweliadau a hysbyswyd o fewn 3 diwrnod gwaith | 71% | 90% |
| **Y Gweithlu** | | |
| Absenoldeb salwch staff | 3.00% | 3.30% |
| Cydymffurfio â PADR | 71.97% | 85% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | 85% | 85% |
| % Asiantaeth hyd yma | 0.50% | <0.8% |

# Dangosyddion Allanol:

| Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau lefel uchel | 2021-22 Gwirioneddol | 2021-22 Targed |
|---|---|---|
| **Dylanwad Proffesiynol** | | |
| Arbedion Dylanwad Proffesiynol | £119m | £110m |
| **Caffael** | | |
| Arbedion caffael | £24m | £22m |
| **Cyfrifon Taladwy** | | |
| Polisïau Taliadau yn y Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan – y tu hwnt i'r GIG o ddechrau'r flwyddyn hyd heddiw | 95% | 95% |
| % y Galwadau Cyfrifon Taladwy yr ymdriniwyd â hwy (De) | 95% | 95% |
| **Gwasanaethau Cyflogaeth** | | |
| Cywirdeb Cyffredinol y Gyflogres (gan gynnwys y Sefydliad) | 99.7% | 99.6% |
| % Galwadau'r Gyflogres yr ymdriniwyd â hwy | 77% | 95% |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Sefydliadau Cymru Gyfan – Recriwtio** | | |
| Cymru gyfan - % y swyddi gwag o'u creu i gynnig diamod o fewn 71 diwrnod | 51% | 70% |
| Cymru gyfan - % y swyddi gwag a gymeradwywyd o fewn 10 diwrnod gwaith | 72% | 70% |
| Cymru gyfan - % y swyddi gwag y lluniwyd rhestr fer ar eu cyfer o fewn 3 diwrnod gwaith | 53% | 70% |
| Cymru gyfan - % canlyniadau'r cyfweliadau a hysbyswyd o fewn 3 diwrnod gwaith | 72% | 90% |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol PCGC ar gyfer Sefydliadau Cymru Gyfan – Elfen Recriwtio** | | |
| % y Swyddi Gwag a hysbysebwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn | 73% | 98% |
| % y ceisiadau a symudwyd i gam llunio rhestr fer o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'r swydd wag gau | 99% | 99% |
| % y llythyrau cynnig amodol a anfonwyd o fewn 4 diwrnod gwaith | 62% | 98% |
| % y Galwadau Recriwtio yr ymdriniwyd â hwy | 93% | 95% |
| **Dyfarniadau Myfyrwyr** | | |
| % y Galwadau Dyfarniadau Myfyrwyr yr ymdriniwyd â hwy | 92% | 95% |
| % Ceisiadau Bwrsariaeth y GIG a broseswyd o fewn 20 diwrnod | 100% | 100% |
| **Gwasanaethau Gofal Sylfaenol** | | |
| Taliadau gofal sylfaenol a wnaed yn unol â therfynau amser statudol | 100% | 100% |
| Presgripsiynau - cyfraddau cywirdeb mewnbynnu | 99.7% | 99% |
| Trosglwyddiadau cofnodion meddygol brys a gyflawnwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 100% |
| Rhybuddion Categori A Cascade i'w cyhoeddi o fewn 4 awr o'u derbyn | 100% | 80% |

| Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau lefel uchel | 2021-22 Gwirioneddol | 2021-22 Targed |
|---|---|---|
| **Archwilio a Sicrwydd (Mehefin 21 - Mai 22)** | | |
| Archwiliadau a gynhaliwyd fel canran o’r rhai a arfaethwyd | 98% | 95% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymateb y rheolwyr i’r adroddiad drafft [15 diwrnod] | 76% | 80% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymatebion drafft i adrodd terfynol [10 diwrnod] | 98% | 80% |
| **Gwasanaethau Ystadau Arbenigol** | | |
| Arbedion Dylanwad Proffesiynol | £22m | £16m |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** | | |
| Arbedion a Llwyddiannau | £74m | £65m |
| Prydlondeb cydnabod cais am gyngor - o fewn 24 awr | 98% | 90% |
| Prydlondeb rhoi cyngor – o fewn tri diwrnod neu o fewn yr amserlen gytunedig | 96% | 90% |
| **Cronfa Risg Cymru** | | |
| Yr amser rhwng y cyflwyniad a’i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu | 100% | 95% |
| Yr amser o’i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu i'w gyflwyno i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru | 100% | 100% |
| Cynnal digon o gyfarfodydd y Panel Cynghori ar Ddysgu | 100% | 90% |
| **Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol** | | |
| % cyflwyno adroddiadau archwiliedig ar amser (Masnachol) | 97% | 87% |
| % cyflwyno adroddiadau archwiliedig ar amser (y GIG) | 97% | 87% |
| **Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes** | | |
| Ymateb o fewn 20 munud i ddigwyddiadau P1 a godir gyda'r Tîm Canolog | 100% | 80% |
| Bydd tocynnau Pwynt Gwasanaeth BACS a dderbynnir cyn 14.00 yn cael eu prosesu ar yr un diwrnod gwaith | 100% | 92% |
| **Datrysiadau Gweithlu Digidol** | | |
| % Galwadau Datrysiadau Gweithlu Digidol yr ymdriniwyd â hwy | 74% | 95% |

Yn ystod 2021-22, gwnaethom adnewyddu ein Fframwaith Perfformiad i ddod â dangosyddion perfformiad allweddol at ei gilydd sy'n tynnu sylw at ein perfformiad strategol, yn ogystal â'r mewnbynnau a'r allbynnau sydd eu hangen i gyflawni hyn. Rydym yn parhau i ddarparu astudiaethau achos a dulliau ansoddol eraill i ddangos ein perfformiad. Lle nad yw targedau wedi'u bodloni ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, amlinellir trosolwg o sut rydym yn mynd i'r afael â pherfformiad wrth edrych tua'r dyfodol isod.

## Trin Galwadau

Er mwyn gwella'r modd y caiff galwadau eu trin yn rhai o'n hisadrannau, mae PCGC wedi sefydlu rhaglen lawn i ganolfannau cyswllt gyda 3 phrosiect cysylltiedig fel a ganlyn:

1. Seilwaith – Mae dau gam i'r Prosiect hwn; bydd Cam 1 yn sefydlu system teleffoni sylfaenol i ddisodli'r system bresennol a fydd yn darfod ym mis Mawrth 2023, a bydd Cam 2 yn sefydlu Modiwl Canolfan Gyswllt sy'n eistedd ar ben y system teleffoni, gan ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office. Bydd Modiwl y Ganolfan Gyswllt yn adlewyrchu gofynion Prosiect Model y Ganolfan Gyswllt a nodir isod.

2. Model y Ganolfan Gyswllt – Bydd Prosiect Model y Ganolfan Gyswllt yn darparu cyfluniad safonol ar gyfer yr holl Ganolfannau Cyswllt sy'n gweithredu o fewn PCGC fel bod cysondeb corfforaethol yn y ffordd y cânt eu sefydlu, eu cyrchu a'u gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys y dechnoleg a ddefnyddir yn sail iddynt, gan adlewyrchu dull "masnachfraint" o ddatblygu canolfannau cyswllt lleol o fewn PCGC.

3. Gwella Llif Gwaith – I gydnabod y gellir datrys llawer o'r ymholiadau a gawn gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau heb yr angen i siarad ag Asiant Canolfan Gyswllt, bydd y Prosiect hwn yn mynd ati i nodi'r cwestiynau mwyaf cyffredin a sefydlu dull o ddarparu ymatebion awtomatig a chyfeirio lle bo hynny'n briodol. Y canlyniad a ddymunir yw lleihau nifer y galwadau y gellir eu hosgoi y mae Asiant yn delio â nhw, gan ganiatáu mwy o amser i ddelio â'r galwadau hynny sydd angen ymyrraeth gan berson.

## Recriwtio

Fel gwasanaeth sy'n darparu gweinyddiaeth recriwtio ar gyfer holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, rydym yn gweithio ar y cyd â Sefydliadau i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu prosesu'n effeithlon, ac yn ddiogel hefyd. Mae'r timau Recriwtio wedi gweld, ac yn parhau i weld, lefelau galw digynsail. Gwelwyd cynnydd o 33% yn nifer y swyddi gwag a chynnydd o 84% mewn llythyrau cynnig a anfonwyd yn 2021/22 o gymharu â 2018/19. Mae Recriwtio yn parhau i weithio gyda rheolwyr sy'n recriwtio trwy gyfarfodydd cwsmeriaid a sefydliadau gwadd i awgrymu unrhyw welliannau, yn benodol i'r prosesau cynnig amodol a diamod. Yn ogystal, nod y rhaglen foderneiddio yw gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

## Archwilio a Sicrwydd

Mae cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymateb y rheolwyr i'r adroddiad drafft (15 diwrnod) yn mesur perfformiad amseroedd cynhyrchu adroddiadau o fewn y sefydliad iechyd. Methwyd mymryn ar y targed, fodd bynnag, mae Penaethiaid Archwilio yn trafod yr oedi hyn yn uniongyrchol gyda sefydliadau iechyd yn barhaus. Mae ein Penaethiaid Archwilio yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau'r GIG i'w helpu i wella amseroedd ymatebion rheolwyr. Caiff yr holl gynnydd o ran cynlluniau archwilio ei drafod a'i gytuno gydag Ysgrifenyddion y Bwrdd a Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio.

# Iechyd a Llesiant

# Cyd-destun Sefydliadol

Mae PCGC wedi ymrwymo'n llwyr i hybu iechyd a llesiant ei weithwyr. Fel gwasanaeth iechyd, mae iechyd a llesiant yr un mor berthnasol i'n gweithwyr ag ydyw i'r boblogaeth leol. Rydym am wneud cymaint ag y gallwn i alluogi ein gweithwyr i fod ar eu gorau, bod yn llawn egni, yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig i'w gwaith.

Mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod hawliau dynol a llesiant ein staff yn cael eu cefnogi a'u diogelu'n llawn. Bydd hyn yn galluogi ein gweithwyr i ffynnu, cyrraedd eu llawn botensial yn y gweithle a'r tu allan iddo, a chefnogi PCGC i gyflawni ei nodau strategol ar yr un pryd.

Mae tystiolaeth gadarn i gefnogi'r farn bod cysylltiad agos rhwng iechyd, gwaith a llesiant. Mae ymchwil yn dangos y gall y gweithle gael effaith gadarnhaol a negyddol ar iechyd a llesiant unigolyn.

Sefydlwyd y Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant yn 2019. Mae'r grŵp yn helpu i weithredu'r fframwaith trwy ddatblygu, monitro a chyfathrebu ynghylch camau llesiant. Daw ei aelodau o bob cwr o'r sefydliad, gan gynnwys Partneriaid Undebau Llafur i sicrhau bod rheolwyr a staff yn cael eu cynrychioli a'u bod yn cymryd rhan ar y cyd yn y gwaith o ddarparu a datblygu'r fframwaith. Mae rhai camau wedi'u cwblhau eisoes ac wedi cael eu croesawu, a bydd y cynllun gweithredu yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwn.

Mae'r Sefydliad yn gweithio tuag at ennill Gwobr Cymru Iach ar Waith yn 2022. Mae'n bwysig bod cyflawni'r safon hon yn adlewyrchu'r gwaith yr ydym yn ei wneud i roi lle blaenllaw i lesiant pobl yn ein gwaith a bod gweithwyr yn dal i deimlo bod cysylltiad rhyngddynt â'r GIG, gan gydnabod bod yr hyn a wnânt yn cael effaith arwyddocaol ar wella gofal cleifion.

## Pum Ffordd at Les

Fel sefydliad, rydym hefyd yn hyrwyddo ymchwil y New Economics Foundation ar y "Pum Ffordd at Les":

| Cysylltu | Bod yn Weithgar | Cymryd Sylw | Dysgu | Rhoi |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n glir bod perthnasoedd cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer hybu llesiant a gwarchod rhag salwch meddwl i bobl o bob oedran | Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn gysylltiedig â chyfraddau iselder a gorbryder is ar draws pob grŵp oedran. Mae ymarfer corff yn hanfodol ar gyfer arafu dirywiad gwybyddol yn gysylltiedig ag oedran a hybu llesiant. | Gall atgoffa staff i 'gymryd sylw' gryfhau ac ehangu ymwybyddiaeth. Mae mwy o ymwybyddiaeth hefyd yn gwella hunanddealltwriaeth ac mae'n galluogi staff i wneud dewisiadau cadarnhaol ar sail eu gwerthoedd a'u cymhellion eu hunain. | Mae dysgu parhaus gydol bywyd yn gwella hunan-barch ac mae'n annog rhyngweithio cymdeithasol a bywyd mwy gweithgar. | Mae cymryd rhan mewn bywyd cymdeithasol a chymunedol wedi denu llawer o sylw ym maes ymchwil llesiant. Mae unigolion sy'n sôn bod mwy o ddiddordeb ganddynt mewn helpu pobl eraill yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn hapus. |

# Llesiant yn y Gweithle

Mae gan weithwyr gyfrifoldeb am eu hiechyd a’u llesiant eu hunain, yn ogystal ag iechyd a llesiant eu cydweithwyr. Yn ogystal, mae gan bob arweinydd a rheolwr gyfrifoldeb am lesiant gweithwyr tra byddant yn y gwaith a rhaid iddynt gydnabod effaith rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar bobl ar ddarparu gwasanaethau a pherfformiad sefydliadol.

Mae ymgorffori arferion rheoli ac arwain da ar draws y sefydliad yn allweddol i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cymell a’u bod yn hapus yn eu gweithle. Mae hyn yn arwain at fwy o foddhad a theimlad o lesiant. Mae’n hanfodol bod rheolwyr llinell ac arweinwyr ar bob lefel yn cydnabod pwysigrwydd eu rôl wrth gefnogi llesiant staff a sicrhau bod ganddynt yr hyder a’r cymhwysedd i gwestiynu a chefnogi staff pan fydd pryderon yn cael eu codi.

## Buddion Llesiant

Fel y nodwyd drwy ymchwil ac a amlygwyd yn y ddogfen hon, mae cysylltiad clir rhwng gweithgarwch llesiant yn y gweithle ac ymgysylltiad gweithwyr. Mae’r canlynol yn rhoi darlun o rai o’r buddion i PCGC fel sefydliad, i weithwyr a, thrwy’r rhain, i’w chwsmeriaid:

## Buddion Sefydliadol



Cyflawni amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol PCGC

Gwell presenoldeb yn y gwaith yn barhaus a gostyngiad mewn cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch



Cadw staff gwerthfawr yn well, gan leihau cost trosiant sefydliadol a chadw gweithwyr medrus a phrofiadol

Mwy o staff am weithio i’r sefydliad, gan arwain at fwy o ddewis o ymgeiswyr a recriwtiaid o safon uwch

Enw da gwell yn y gymuned leol ac ehangach.





Mwy o ymrwymiad a boddhad gan staff, sy’n arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant

# Buddion i Weithwyr

Mae staff yn deall eu rôl ac yn gallu nodi eu lle nhw yn y sefydliad

Morâl gwell a mwy o ymgysylltiad yn y gwaith

Cyfle i ddatblygu potensial gyda dysgu a datblygu ar gael iddynt, gan gynyddu sgiliau, cymhwysedd a'r potensial am ddilyniant yn eu gyrfa

Y teimlad bod staff yn cael eu cynnwys ac yr ymgynghorir â nhw, yn unigol a thrwy gynrychiolwyr, yn enwedig ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a'r gwasanaethau a ddarparant.

Cefnogi staff i ddelio â hynt a helynt bywyd yn fwy cadarnhaol, a gweithredu arnynt, ac wrth ddelio â sefyllfaoedd sy'n achosi straen

Lefelau straen is

Drwy gymorth cyfathrebu da, mae staff yn deall ac yn addasu i newid yn hawdd

Gall staff gael at gymorth i'w helpu i gadw eu hunain yn iach ac yn ddiogel

Llai o salwch a gwell iechyd a llesiant

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg, gyda thâl, buddion a chyfleusterau

# Llesiant Ariannol

Mae llesiant ariannol yn ymwneud ag ymdeimlad o ddiogelwch a theimlo bod gennych chi ddigon o arian i ddiwallu'ch anghenion. Mae'n ymwneud â rheoli eich arian o ddydd i ddydd a chael y rhyddid ariannol i wneud dewisiadau sy'n caniatáu i chi fwynhau bywyd.

Yn gysylltiedig â'n Strategaeth Iechyd a Llesiant, yn PCGC, mae sicrhau bod ein staff yn gallu cael at yr adnoddau i reoli eu llesiant ariannol yn hanfodol. Rydym wedi cyflwyno tudalen bwrpasol i staff gyda chyfeiriadu at adnoddau a sefydliadau cymorth allanol amrywiol i helpu staff i reoli eu harian, oherwydd gall cael gafael ar gymorth a chyngor yn gynnar helpu i osgoi mynd i drafferthion ariannol. Mae PCGC wedi ymuno â Salary Finance i gynnig budd newydd i staff, sy'n cynnwys cyngor ariannol a benthyciadau fforddiadwy a ad-delir yn uniongyrchol o gyflog gweithiwr. Mae Salary Finance yn cynnig bocs-set o fideos addysgol yn ogystal â gweminarau, cyfrifianellau, offer a chanllawiau bywyd a grëwyd gan Jason Butler, Pennaeth Addysg Ariannol Salary Finance ac arbenigwr cyllid personol ar gyfer y Financial Times. Bwriad y cynnwys addysg ariannol hwn yw helpu staff i ddeall a rheoli eu harian yn well.

O fewn Tîm Buddion Staff PCGC ym maes Cyllid, rydym yn cynnig y cynlluniau canlynol i staff:

## Cynllun Seiclo i'r Gwaith

- Mae'r cynllun yn cael ei redeg ar y cyd â Cycle Solutions a'i fwriad yw rhoi'r opsiwn i holl staff parhaol PCGC brynu beiciau ac ategolion cysylltiedig ar gyfer beicio i'r gwaith (e.e. helmedau, dillad, ac ati) am brisiau cystadleuol iawn, er mwyn annog teithio llesol a chymudo yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, gan wneud arbedion ariannol i'r sefydliad ar yr un pryd a fydd yn cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

## Cynllun Electroneg y Cartref

- Mae'r yn cael ei redeg ar y cyd â Home Electronic Solutions a'i nod yw rhoi'r cyfle i bob aelod o staff parhaol yn y Bartneriaeth Cydwasanaethau gael gafael ar eitemau electronig y cartref o'i ddewis am bris cystadleuol iawn o Currys/PCWorld, gan wneud arbedion ariannol i'r sefydliad ar yr un pryd a fydd yn cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.  Nid oes unrhyw flaendaliadau ac mae'r costau'n sefydlog ar gyfer holl elfennau'r tymor.

## Cynllun Prydlesu Cerbydau i Staff

- Mae'r cynllun yn cael ei redeg ar y cyd ag NHS Fleet Solutions a'i nod yw rhoi'r cyfle i bob aelod o staff parhaol y Bartneriaeth Cydwasanaethau gael gafael ar gerbyd o'i ddewis am bris cystadleuol iawn, gan wneud arbedion ariannol i'r sefydliad ar yr un pryd a fydd yn cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

## Benthyciadau a Ad-delir trwy Gyflog

- Mae'r cynllun yn cynnig benthyciadau ar gyfraddau fforddiadwy, fel dewis fforddiadwy arall yn lle cardiau credyd a gorddrafftiau, ac mae'n fwy tebygol na banciau o dderbyn pobl i'r cynllun. Gallai hefyd gael ei ddefnyddio i dalu am gost annisgwyl neu gymorth i gyflawni nodau ariannol tymor hir. Gall staff wneud cais hyd yn oed os oes ganddynt hanes credyd gwael, Dyfarniadau Llys Sirol, maent wedi methu â thalu o'r blaen neu wedi cymryd benthyciadau diwrnod cyflog, ac mae'r cyfraddau llog yn gystadleuol iawn.

# Datblygu Cynaliadwy

# Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod nodau hirdymor uchelgeisiol er mwyn adlewyrchu’r Gymru rydym ni am ei gweld nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cenedlaethau’r dyfodol, ynghyd â GIG Cymru a chwmpas dylanwad ehangach gyda’r swyddogaethau cydwasanaethau a ddarparwn.




Am y rheswm hwn, cynnwys y Ddeddf yw’r llinyn euraidd sy’n rhedeg trwy galon popeth a wnawn, sy’n sail i’n polisïau, ein strategaethau a’n cynlluniau. Mae ymgorffori’r pum ffordd o weithio yn sicrhau ein bod yn diogelu anghenion cenedlaethau’r dyfodol heb beryglu anghenion y presennol. Mae’n sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu cadarn yn gwella llesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru drwy’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Yn cyd-fynd â’r dull hwn y mae’r angen i fynd i’r afael â’r newid hinsawdd a hyrwyddo’r Economi Sylfaenol. Mae datgarboneiddio yn sail i’n strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ac mae’r tudalennau canlynol yn darparu llawer o enghreifftiau o’r modd yr ydym yn cyflawni hyn yn ymarferol. Mae datblygu Economi Sylfaenol yng Nghymru nid yn unig yn helpu i leihau’r ôl troed carbon ond mae’n darparu mwy o gadernid ac mae’n hyrwyddo busnesau a swyddi lleol.

Ym mis Gorffennaf 2021, lluniwyd Tîm Trawsnewid a Pholisi’r Economi Sylfaenol; cylch gwaith y tîm oedd cynyddu gwariant y GIG yng Nghymru ac addysgu staff PCGC ar fanteision yr economi sylfaenol. Mae’r tîm wedi bod yn gweithio gyda llwyfannau GwerthwchiGymru a MultiQuote i gynyddu nifer y cyflenwyr o Gymru; hyd yn hyn, maent wedi cynyddu nifer busnesau Cymru sydd wedi cofrestru 16%. Maent yn dadansoddi cyfleoedd sydd ar y gweill gan dimau caffael ac yn defnyddio hyn i hyrwyddo cyfleoedd sydd ar ddod i fusnesau Cymru.


Going forward, in order to support Wrth edrych tua’r dyfodol, er mwyn cefnogi timau caffael PCGC, byddant yn cynnal cyfres o sesiynau hyfforddi i amlygu pwysigrwydd cynnwys meini prawf cynaliadwyedd â sgôr, sy’n cynnwys cwestiynau am yr economi sylfaenol ac, yn bwysicach, sut y mae’r cwestiynau hyn yn cael eu hasesu’n effeithiol ac yn deg . Er mwyn cefnogi gofynion y Byrddau Iechyd, rydym wrthi’n creu cyfres o adroddiadau a fydd yn cael eu dosbarthu’n fisol.

Un cyflawniad allweddol ar gyfer 2021-22 yw cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, a ysgrifennwyd mewn ymateb uniongyrchol i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i’r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn sero net yn gyffredinol erbyn 2030 ac i gefnogi’r uchelgeisiau hyn. Mae’r Cynllun yn nodi chwe phrif ffrwd gweithgarwch, megis rheoli carbon, adeiladau, trafnidiaeth, caffael, cynllunio ystadau/ defnydd tir ac ymagwedd at ofal iechyd, a lluniwyd Cynllun Gwaith thematig ar fentrau i gyflawni ein nod. Mae’r Cynllun yn cynnwys llinell amser enghreifftiol i helpu GIG Cymru yn ehangach i reoli ei weithgareddau dros y cyfnod:

- Cyflymu’r broses (2020-2022)
- Ar y trywydd iawn (2022 – 2026)
- Cyrraedd ein Nod (2026 - 2030)

# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu a gweithredu dull 'Unwaith i Gymru' lle y bo'n briodol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgorffori Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wrth dynnu sylw at arferion gorau adrodd integredig, rydym wedi mapio ein huchafbwyntiau a'n cyflawniadau o dan y Pum Ffordd o Weithio. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl am y tymor hir, integreiddio gyda'r sector cyhoeddus ehangach, cynnwys ein partneriaid a gweithio ar y cyd, er mwyn atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau.




## Integreiddio

1. Mae datgarboneiddio wedi'i wreiddio ym mhroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ac mewn Amcanion Strategol, ac mae targedau allweddol i'w cyflawni yn uno â'n Nodau Llesiant; integreiddio a gwreiddio'r agenda; mwy o ffocws ar adrodd integredig.
2. Mae gwaith monitro ein hôl troed carbon yn broses sydd wedi'i hintegreiddio'n dda a thrwy barhau i fabwysiadu gweithio ystwyth, rydym am greu meincnod newydd a gwella'r broses o gasglu a chywirdeb data ar draws pob safle.
3. Cryfhau cysylltiadau ac alinio ein hagenda Datblygu Cynaliadwy ac ISO14001, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, gan weithio mewn partneriaeth â phartïon â diddordeb a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'r nodau.
4. Cynnal Seremoni Wobrwyo Flynyddol Cydnabod Staff a chynnwys categorïau Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac Iechyd a Llesiant.
5. Cwblhawyd Asesiadau Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Prosiectau.

## Tymor Hir

1. Wrth gynnal ardystiad ISO 14001:2015 ar gyfer yr amgylchedd ac yn sgil cael yr ardystiad ers 2014, ymestynnom y cwmpas i gynnwys IP5 a'r Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol.
2. Ehangu ein gwaith yn cefnogi'r Economi Sylfaenol yng Nghymru, gan weithio gyda chyflenwyr o Gymru.
3. Mwy o bwyslais ar bersbectif cylch bywyd gwastraff sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau mewn isadrannau, a mwy o ystyriaeth o hyn.
4. Prosiect parhaus gosod paneli solar ar IP5 a safleoedd eraill.
5. Gostwng terfynau allyriadau ar draws y Cynllun Aberthu Cyflog yn gysylltiedig â Cheir i hybu atyniad cerbydau trydan.

## Cyfranogi

1. Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant Staff llwyddiannus dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a chyhoeddi cyfathrebiadau yn rheolaidd.

2. Llofnododd y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi, ein Datganiad Cyflogaeth Foesegol.

3. Lansio Rhwydweithiau Staff, gan gynnwys Rhwydwaith LHDT+ a Chaffis Menopos.

4. Mae cyfleoedd i staff gymryd rhan yn yr agenda a gwneud gwahaniaeth trwy ddod yn Hyrwyddwr Amgylcheddol neu'n Hyrwyddwr Iechyd a Llesiant gwirfoddol. Lansio Rhwydweithiau Staff, gan gynnwys Rhwydwaith LHDT+ a Chaffis Menopos.

5. Cyflwyno contract 10 mlynedd i sicrhau cynaliadwyedd gweithlu GIG Cymru.

## Collaboration

1. Cydweithio â chydweithwyr, cwsmeriaid a phartneriaid i gymryd rhan mewn mentrau megis Diwrnod Cynaliadwyedd y GIG, Cadwch Gymru'n Daclus, WRAP Cymru, ac ati.

2. Ailwampio gwefan cynaliadwyedd i fod yn un canolbwynt gwybodaeth sy'n gyfredol ac yn berthnasol i ddefnyddwyr; yn cael ei gynnal trwy ymgysylltu â phartïon â diddordeb a rhanddeiliaid allweddol.

3. Mae PCGC yn prynu trydan a nwy ar gyfer y GIG cyfan a daw 100% o'r trydan a brynir o ffynonellau adnewyddadwy.

4. Gweithio gyda darparwyr iechyd meddwl a llesiant i gyflwyno sesiynau ar gyfer ein gweithlu.

5. Cydweithio â chyrff cyhoeddus a phreifat ar draws gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol ar systemau cymorth i helpu gyda recriwtio.

## Atal

1. Cynnal Asesiadau Risg Cynaliadwyedd ar gyfer pob gweithgarwch caffael dros £25,000 a chynnal archwiliadau o'r broses hon.

2. Gweithredu Pecyn Cymorth Gweithio Ystwyth sy'n caniatáu i staff weithio'n hyblyg yn unol â gofynion y sefydliad. Lleihau'r defnydd o adnoddau prin a chyfyngedig, fel papur ac ynni.

3. Cofnodi safleoedd ynni gwyrdd, ymffrostio ynghylch allyriadau di-garbon o ddefnydd yn Nhŷ Alder, Charnwood Court, Storfeydd Dinbych ac Ystâd Ddiwydiannol Westpoint.

4. Gosod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan ychwanegol ar draws safleoedd.

5. Datblygu cofrestr risg offer a chyfarpar cyfunol sy'n proffilio meysydd sy'n agored i risg yn ystod rhaglen drawsnewidiol y Gwasanaethau Golchdy.

# Perfformiad ac Amcanion Cynaliadwyedd

Mae PCGC wedi ymrwymo i reoli ei heffaith amgylcheddol, gan leihau ei hôl troed carbon ac integreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwyedd mewn busnes o ddydd i ddydd. Llwyddodd PCGC i weithredu ISO14001 fel ei System Rheolaeth Amgylcheddol (EMS), yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac maent wedi cynnal ardystiad yn llwyddiannus ers mis Awst 2014, trwy weithredu model gwella parhaus Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu.



Ym mis Awst a mis Medi 2021, cyflawnodd PCGC ei archwiliad ailardystio ISO14001:2015 yn llwyddiannus. Cynhaliwyd yr archwiliad gan y British Assessment Bureau a chroesawodd safleoedd ychwanegol i'r cwmpas. Cynhelir archwiliadau gwyliadwriaeth blynyddol i asesu cydymffurfiad parhaus â'r Safon. Mae Safon 2015: ISO14001 yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, gwelliant parhaus trwy ddull sy'n seiliedig ar broses risg ac ymrwymiad i arweinyddiaeth o'r brig i lawr, wrth reoli anghenion a disgwyliadau partïon sydd â diddordeb a dangos perfformiad amgylcheddol cadarn, trwy reoli effaith gweithgareddau, cynhyrchion neu wasanaethau ar yr amgylchedd. Mae PCGC wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd ac mae gennym System Rheoli Amgylcheddol gynhwysfawr, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Polisi Amgylcheddol.

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed carbon trwy weithredu amrywiol fentrau amgylcheddol ac arbedion effeithlonrwydd yn ein safleoedd o fewn cwmpas ein hardystiad ISO14001:2015. Fel rhan o'n hymrwymiad i leihau ein cyfraniad tuag at newid hinsawdd, cytunwyd ar darged o ostyngiad o 3% yn ein hallyriadau carbon (flwyddyn ar ôl blwyddyn, o linell sylfaen ôl troed carbon a sefydlwyd yn 2016-17), ac adlewyrchwyd hyn yn ein Hamcanion Cynaliadwyedd Amgylcheddol. Wrth edrych tua'r dyfodol, sefydlir llinell sylfaen newydd yn unol â manteisio ar weithio ystwyth a bydd y Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio a'r Cynllun Gwaith Lleol cysylltiedig yn gosod y cywair ar gyfer Amcanion Cynaliadwyedd Amgylcheddol y sefydliad yn y dyfodol.

Parhaodd cyfyngiadau COVID-19 yn 2021-22 gan olygu bod llawer o'n staff yn gweithio gartref, gan leihau allyriadau carbon yn sylweddol drwy beidio â chymudo i'r gwaith, er bod yr arbedion hyn yn anodd eu mesur yn PCGC.

Er gwaethaf hyn, roedd ein holl safleoedd yn parhau'n weithredol ac, felly, roedd angen eu gwresogi a'u goleuo. Fe wnaeth gweithgarwch yn IP5 a'n Storfeydd, i ymateb i anghenion GIG Cymru ac eraill wrth frwydro effaith y pandemig, yn enwedig o ran darparu offer meddygol a chyfarpar diogelu personol, gynyddu'n sylweddol dros y cyfnod. Mae darparu mannau gwefru cerbydau trydan ar lawer o safleoedd wedi cynyddu faint o drydan a ddefnyddir hefyd, er mai trydan gwyrdd yw hwn, a manteision darparu'r cyfleuster hwn yw gwneud ceir a cherbydau fflyd trydan yn fwy deniadol i GIG Cymru a'i staff, gan felly lleihau allyriadau o danwyddau ffosil. Fodd bynnag, mae'n amhosibl i PCGC fesur manteision y gostyngiad hwn mewn tanwydd ffosil, yn enwedig gan fod y cyfleuster hwn ar gael i holl staff GIG Cymru.

Yng ngoleuni'r heriau hyn, mae PCGC wedi gallu dangos gostyngiadau sylweddol yn y defnydd o ynni lle mae'n bosibl cymharu'n uniongyrchol â'r flwyddyn flaenorol, gan ddangos **gostyngiad cyffredinol o 3.15%** mewn allyriadau carbon. Lle na wnaethom gyrraedd ein targed ar gyfer gostwng allyriadau, mae esboniad wedi'i ddarparu isod*.

| | Targed | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | Wedi'i gyflawni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trydan** | 3% ↓ | 18% ↓ | 11.5% ↓ | 27% ↓ | 15% ↓ | 4.42% ↑ | ✗ |
| **Nwy** | 3% ↓ | 7% ↓ | 38% ↓ | 35% ↑ | 32% ↓ | 12% ↓ | ✓ |
| **Dŵr** | 3% ↓ | 9% ↓ | 6% ↑ | 50% ↓ | 46% ↓ | 13.25% ↑ | ✗ |
| **Gwastraff** | 70% ↓ | 95% ↓ | 89% ↓ | 94.68% ↓ | ***Ddim yn berthnasol*** | ***Ddim yn berthnasol*** | — |
| **Milltiroedd Busnes** | 15% ↓ | 11% ↓ | 10% ↑ | 19% ↓ | 75% ↓ | 340% ↑ | ✗ |
| **wariant ar Filltiroedd Busnes** | 15% ↓ | 15% ↓ | 11% ↑ | 14% ↓ | 71% ↓ | 390% ↑ | ✗ |
| **Ôl Troed Carbon Cyffredinol** | | 3.78% ↓ | 11.32% ↓ | 12.04% ↓ | 16.25% ↓ | 3% ↓ | ✓ |

*Roedd cynnydd yn y defnydd o drydan ar ein safleoedd yn IP5 a Mamheilad oherwydd cynnydd sylweddol yn y defnydd o ganlyniad i wefru cerbydau trydan ar gyfer fflyd ein Cadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth ar y safle a chynnydd yn y Gwasanaethau a gynigir o'n safle yn IP5. Yn yr un modd, roedd cynnydd yn y defnydd o ddŵr yn IP5 oherwydd cynnydd mewn gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir ar y safle, a defnyddiwyd mwy o ddŵr yn Nhŷ'r Cwmnïau oherwydd bod canran o staff wedi dychwelyd i'r swyddfa yn dilyn y cyfyngiadau. Yn ogystal, mae ansawdd a chywirdeb y data a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi cynyddu. Nodwyd gostyngiad sylweddol yn y gwastraff a gynhyrchwyd o safleoedd corfforaethol yn sgil gweithio ystwyth a mesurau Covid ar y safleoedd. Fodd bynnag, gan nad oedd data ar wastraff ar gael ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ni allwn roi canran gywir ar gyfer y gostyngiad. Sefydlwyd prosiect i gasglu data o safon am wastraff o safleoedd ac o'r herwydd, bydd adroddir ffigurau gwaelodlin ar gyfer 2022-23. Cynyddodd gwariant a milltiroedd busnes yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gynnwys y Gwasanaethau Golchdy a'r Un Cyflogwr Arweiniol; nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi yn ein ffigurau o'r blaen. Dylid nodi hefyd bod dileu cyfyngiadau Covid tua diwedd y flwyddyn ariannol, yn golygu bod staff yn gallu teithio at ddiben cyfarfodydd a digwyddiadau eto.



# Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi a chaethwasiaeth fodern

Sefydlwyd y Cod Ymarfer gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflawni contractau ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus Cymru sy'n derbyn arian cyhoeddus. Mae tystiolaeth yn dangos bod arferion cyflogaeth anfoesegol yn digwydd mewn cadwyni cyflenwi ledled Cymru a thu hwnt. Nod y Cod Ymarfer yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus wedi eu cyflogi yn foesegol ac mewn modd sy'n cydymffurfio â llythyren ac ysbryd deddfau'r DU a deddfau rhyngwladol.

Mae'n ymdrin â materion cyflogaeth fel caethwasiaeth fodern, tramgwyddo hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél, contractau dim oriau a thalu'r cyflog byw. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gwaith caffael ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn modd moesegol. Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr yn y cadwyni cyflenwi yr ydym yn cyrchu ein nwyddau a'n gwasanaethau trwyddynt yn cael eu trin yn deg. Gwnaethom ymuno â'r Cod a datblygu cynllun gweithredu i fonitro ein cynnydd. Gwnaethom benodi ein Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol.

Mae Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi yn gronfa ddata ganolog sy'n cynnwys Datganiadau Caethwasiaeth Fodern a bostiwyd gan gyflenwyr. Defnyddir y Datganiadau hyn yn ystod prosesau tendro, fel rhan o Ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol. Mae'r wefan yn galluogi PCGC i ddatgan ein gwrthwynebiad i gaethwasiaeth a pholisïau cysylltiedig yn gyhoeddus. Mae'r wefan wedi ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n helpu i ddileu caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi.

Mae Gwasanaethau Caffael PCGC wedi darparu hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesegol drwy amrywiol gyfryngau hyfforddiant; mae wedi datblygu cwestiynau safonol sy'n sicrhau bod arferion cyflogaeth foesegol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael; daeth yn llofnodwr y gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi a chyhoeddodd Ddatganiad Cyflogaeth Foesegol PCGC; gofynnodd i'n cyflenwyr ymuno â'r gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi a chyhoeddi eu polisïau a'u datganiadau eu hunain; hefyd, dylanwadodd ar ein lletywyr, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, i ddiweddaru eu Polisi Codi Pryderon (Chwythu'r Chwiban) cyffredinol a datblygu cyfathrebiadau i gynorthwyo â'i hyrwyddo'n effeithiol.

# Atodiad

# Atodiad: Data'r gweithlu

Amlinellir dadansoddiad o broffil ein gweithlu amrywiol, ar **31 Mawrth 2022**, isod. Pan gyfeirir at y categorïau 'amhenodol', ni chedwir unrhyw ddata ar hyn o bryd ar gyfer y maes data. Ar gyfer 'heb ei ddatgelu', ni chofnodwyd ymateb yn y maes data. Ffynhonnell y data: Cofnod Staff Electronig (ESR).

## Crynodeb o Nifer Staff PCGC yn eu Swydd ac yn Gweithio Cyfwerth ag Amser Llawn

| Is-adran | Nifer y bobl | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|
| Is-adran Cyfrifon Taladwy | 130 | 126.44 |
| Is-adran Archwilio a Sicrwydd | 49 | 47.09 |
| Is-adran Corfforaethol | 34 | 30.43 |
| Is-adran Atal Twyll | 7 | 7.00 |
| Is-adran Gweithlu Digidol | 16 | 16.67 |
| Is-adran Tîm Canolog e-Fusnes | 14 | 13.45 |
| Is-adran Cyflogaeth | 384 | 347.11 |
| Is-adran Cyllid | 19 | 18.57 |
| Is-adran Gwasanaethau a Letyir | 17 | 15.88 |
| Is-adran Golchdy | 133 | 122.30 |
| Is-adran Cyfreithiol a Risg | 148 | 139.88 |
| Is-adran Archwilio Meddygol | 48 | 26.62 |
| Is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol | 49 | 48.83 |
| Is-adran Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg | 32 | 31.19 |
| Is-adran Gofal Sylfaenol | 296 | 278.03 |
| Is-adran Caffael | 645 | 669.48 |
| Is-adran Un Cyflogwr Arweiniol | 2688 | 2564.82 |
| Is-adran Ystadau Arbenigol | 49 | 47.95 |
| Is-adran Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) | 24 | 21.92 |
| Is-adran Uned Feddyginiaethau Dros Dro | 14 | 14.00 |
| Is-adran Uned Cyflogwyr Cymru | 6 | 4.83 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 4592.47 |

## Crynodeb Proffil Oedran PCGC

| Band Oedran | Nifer y bobl | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| <=20 mlynedd | 13 | 0.27% | 14.27 |
| 21-25 | 626 | 13.04% | 624.23 |
| 26-30 | 1117 | 23.26% | 1096.27 |
| 31-35 | 1018 | 21.20% | 947.46 |
| 36-40 | 520 | 10.83% | 485.99 |
| 41-45 | 361 | 7.52% | 341.60 |
| 46-50 | 323 | 6.73% | 309.21 |
| 51-55 | 324 | 6.75% | 315.46 |
| 56-60 | 297 | 6.18% | 274.18 |
| 61-65 | 157 | 3.27% | 145.59 |
| 66-70 | 32 | 0.67% | 28.35 |
| >=71 mlynedd | 14 | 0.29% | 9.87 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 100.00% | 4592.47 |

## Crynodeb Categori Aseinio PCGC

| Categori Aseinio | Nifer y bobl | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Tymor Penodol - dros dro | 2876 | 59.89% | 2788.21 |
| Parhaol | 1926 | 40.11% | 1804.26 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 100.00% | 4592.47 |

## Crynodeb Rhywedd PCGC

| Rhywedd | Nifer y bobl | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Benyw | 2689 | 56.00% | 2490.34 |
| Gwryw | 2113 | 44.00% | 2102.14 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 100.00% | 4592.47 |

## Categori Gweithiwr PCGC yn ôl Rhywedd

| Rhywedd | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Amser Llawn | 1996 | 1925 |
| Rhan amser | 693 | 188 |

# Crynodeb Statws Priodasol PCGC

| Statws Priodasol | Nifer y bobl | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Mewn partneriaeth sifil | 44 | 0.92% | 40.55 |
| Wedi ysgaru | 123 | 2.56% | 116.71 |
| Wedi gwahanu'n gyfreithiol | 20 | 0.42% | 18.25 |
| Yn briod | 1443 | 30.05% | 1330.11 |
| Yn sengl | 1258 | 26.20% | 1213.22 |
| Ddim yn gwybod | 1307 | 27.22% | 1263.35 |
| Yn weddw | 17 | 0.35% | 15.76 |
| (gwag) | 590 | 12.29% | 594.52 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 100.00% | 4592.47 |

# Crynodeb Statws Anabledd PCGC

| Anabledd | Nifer y bobl | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Nac ydw | 3784 | 78.80% | 3613.86 |
| Heb ddatgan | 180 | 3.75% | 170.12 |
| Mae'n well gen i beidio ag ateb | 1 | 0.02% | 1.00 |
| Amhenodol | 727 | 15.14% | 701.35 |
| Ydw | 110 | 2.29% | 106.14 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 100.00% | 4592.47 |

# Crynodeb Cyfeiriadedd Rhywiol PCGC

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Nifer y bobl | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | 49 | 1.02% | 46.80 |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 59 | 1.23% | 58.51 |
| Heterorywiol neu Syth | 2718 | 56.60% | 2576.10 |
| Heb nodi | 256 | 5.33% | 242.44 |
| Amhenodol | 1718 | 35.78% | 1666.63 |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall nad yw wedi'i restru | 2 | 0.04% | 2.00 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 100.00% | 4592.47 |

# Crynodeb Cred Grefyddol PCGC

| Cred Grefyddol | Nifer y bobl | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Anffyddiaeth | 779 | 16.22% | 749.41 |
| Bwdhaeth | 41 | 0.85% | 39.79 |
| Cristnogaeth | 1395 | 29.05% | 1310.63 |
| Hindŵaeth | 90 | 1.87% | 83.75 |
| Nid wyf am ddatgelu fy nghrefydd/nghred | 425 | 8.85% | 409.53 |
| Islam | 321 | 6.68% | 308.49 |
| Iddewiaeth | 3 | 0.06% | 3.00 |
| Arall | 256 | 5.33% | 249.40 |
| Siciaeth | 15 | 0.31% | 14.33 |
| Amhenodol | 1477 | 30.76% | 1424.13 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 100.00% | 4592.47 |

# Crynodeb Grŵp Ethnig PCGC

| Grŵp Ethnig | Nifer y bobl | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Gwag | 1132 | 23.57% | 1122.21 |
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 676 | 14.08% | 647.65 |
| Heb nodi | 163 | 3.39% | 155.91 |
| Gwyn | 2831 | 58.95% | 2666.70 |
| Cyfanswm Terfynol | 4802 | 100.00% | 4592.47 |

Diolch am ddarllen ein Hadolygiad Blynyddol. Os hoffech ddarganfod mwy am ein sefydliad neu roi sylwadau ar y cyhoeddiad hwn, ewch i'n gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu defnyddiwch y manylion cyswllt.


01443 848585

shared.services@wales.nhs.uk

www.nwssp.wales.nhs.uk

@nwssp

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru,
4-5 Charnwood Court,
Hoel Billingsley,
Parc Nantgarw,
Caerdydd,
CF15 7QZ



Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
nwssp.communications@wales.nhs.uk


GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership